

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru

Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2014 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

20

Yn y rhifyn hwn In this issue

Cerdded yn ôl
troed tywysogion
**Walking in the
footsteps of princes**

Buddsoddi yn
Nhreftadaeth Cymru
**Investing in
Wales' Heritage**

Parc Rhanbarthol
y Cymoedd:
Ailddehongli'r
Cymoedd?
**Reinterpreting
the Valleys?**

Golwg ar brosiectau
dehongli yng Nghymru sy'n
cael nawdd Ewropeaidd

**Looking at European
funded interpretation
projects in Wales**



DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 20 Gwanwyn 2014

Cyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu: Cyfoeth Naturiol Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd
tuag at ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy gyfrwng
dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr
drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir
gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

**4-5 Ar drywydd y llwybr clywedol
Buddsoddi yn Nhreftadaeth Cymru**
Dave Penberthy

8 Hanes dau gastell Dave Penberthy

10-12 Cerdded yn ôl troed tywysogion
Dr Sarah McCarthy

16 Mona Antiqua Neil Johnstone

**17 Ynys Môn: Pont Drwy Amser –
Arbrawf ym maes Treftadaeth
Ddigidol** Susanne Intriligator

20-21 Dehongli – pedair ffordd wahanol
Charlotte Barnet

**24-25 Parc Rhanbarthol y Cymoedd:
Ailddehongli'r Cymoedd?**
David Llewellyn

28 Tredegar drwy fy llygaid i
Becky Adams

30-31 Cyfoethogi'r Profiad o Deithio
Ryland Jones

**34 Llysgenhadon y Cymoedd yn helpu
i ddatblygu 'cyrchfan llawn cyffro
i dwristiaid!** Jean Round

**36 Dehongli Llwybr Arfordir Cymru
– Pob un o'r 870 o filltiroedd!**
Quentin Grimley

**38 Hanes Treftadaeth Hendy-gwyn
ar Daf** Ken Rees

40 Amgueddfeydd yn y Nos

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales /
Dehongli Cymru

Ruth Taylor Davies

lethaconsultancy@gmail.com

ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

ffôn: 01600 860779

Llun y clawr: Nghastell Conwy (Cadw)

Uchod: Gwalch y pysgod yn hedfan
dros Gors Dyfi (hawlfraint YNM)

Golygyddol

Mae Cymru wedi elwa o £4 biliwn o grantiau Ewrop ers 2000.
Yn y rhifyn swmpus hwn o Dehongli Cymru rydyn ni'n rhoi sylw
i rai o'r prosiectau sy'n derbyn cefnogaeth y Gronfa Cydgyfeiriant
Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn y cynllun presennol sy'n rhedeg rhwng
2008 - 2014. Mae yna chwe maes prosiect strategol - Twristiaeth Treftadaeth,
Cymunedau a Natur, Parc Rhanbarthol y Cymoedd, Llwybr Arfordir Cymru,
Twristiaeth yr Arfordir a Thwristiaeth Cynaliadwy - wedi bod yn ffordd o
ddyrrannu symiau sylweddol o arian.

Yn bwysicaf, mae'r arian yn ei gwneud yn bosibl cael trefn unwaith eto ar
ran sylweddol o dreftadaeth Cymru. Gosodwyd toeau newydd yn lle rhai
oedd yn gollwng. Cafodd briciau, mortar, cerrig a choed eu trwsio. Yn y
ffordd orau posibl, ymosodwyd ar amddiffynfeydd cestyll er mwyn i bawb
allu mynd yno. Erbyn hyn, mae llawer mwy o adeiladwaith ein treftadaeth
yn 'addas at y diben'. Cafodd gwell seilwaith ei greu hefyd ar rwydweithiau
llwybrau troed a beicio i allu treiddio i'n treftadaeth naturiol.

Ar lefel ddeallusol, mae hanes Cymru'n cael ei adrodd, am y tro cyntaf,
mewn modd cyfun a chlir trwy'r cynllun dehongli Cymru gyfan. Rydyn ni'n
gallu dehongli'n well nag erioed o'r blaen. Drwy ddyfeisgarwch a chreadigaeth
cafodd hanesion ein cenedl eu datgelu – ar y ddaear ac yn y byd rhithiol.

Yn y rhifyn hwn rydym yn sôn am brosiect *Tywysogion Gwynedd*, un o
lawer a dderbyniodd arian. Yng Nghymru annibynnol y Canol Oesoedd
roedd y Tywysogion yn dal eu tir ymysg bonedd Ewrop. Wyth gan mlynedd
yn ddiweddarach, mae arian Ewrop yn rhoi'r annibyniaeth a'r cyfle i ni fynd
ein ffordd ein hunain. Dyma sydd wedi dod â ni i allu teimlo'n hyderus
ynghylch ein lle yn Ewrop. Daeth dehongli yng Nghymru i oed!

Ond gydag arian daw cyfrifoldeb. Rhaid i ni edrych yn feirniadol ar beth
sydd wedi'i wneud. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fod yn falch o'r hyn rydyn ni
wedi'i gyflawni, ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn onest ynghylch yr hyn nad
yw wedi gweithio. Ydyn ni wedi gwrandao ar ein beirniaid? Ydyn ni'n gofyn
y cwestiynau iawn wrth werthuso prosiectau? Pa mor berthnasol yw rhifau
pan mai ynghylch teimladau ac emosiynau y mae'r rhan fwyaf o'r hyn rydyn
ni'n ei wneud? Beth fydd yn digwydd mewn 5 mlynedd pan fydd sglein
newydd-deb, yn llythrennol, wedi pylu? Bydd Cymru'n derbyn £2 biliwn
arall o'r Cronfeydd Strwythurol i helpu cefnogi twf a chynyddu swyddi o 2014,
ond a ydyn ni'n barod i fanteisio ar hyn? Mae llawer i'w ddathlu, ond rhaid
i ni beidio ag anghofio mai newydd ddechrau y mae'r gwaith.

Fel pob amser, diolch yn fawr iawn i chi, bob un o'n cyfranwyr. Eich
cynnyrch chi yw'r cylchgrawn. Diolch hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru am
gyfieithu. Cofiwch anfon eich syniadau am erthyglau yn y dyfodol ataf i.
Rwy'n edrych ymlaen at glywed oddi wrthyhych.

Ruth Waycott

Golygydd

Dehongli Cymru, rhifyn 20

2



Editorial

Wales has benefitted from some £4 billion of
European grants since 2000. In this bumper
issue of Interpret Wales we showcase some
of the projects receiving support from the European Regional
Development Convergence Fund in the current scheme running
2008 - 2014. Six strategic project areas - Heritage Tourism, Communities
and Nature, Valleys Regional Park, Wales Coast Path, Coastal Tourism
and Sustainable Tourism - have been the vehicles for allocating substantial
sums of money.

Crucially, funding has made it possible to put a substantial chunk of Wales'
heritage back in shape. Leaky roofs have been replaced. Bricks, mortar,
stones and timbers have been repaired. In the best possible way, castle
defences have been attacked to allow everyone inside. Physically, much
more of our heritage is now 'fit for purpose'. Better infrastructure for
exploring our natural heritage has also been created along footpaths and
cycle networks.

On an intellectual level the story of Wales is being told, for the first time, in
a coordinated and coherent way through the pan Wales interpretation plan.
We have interpretation as never before. Inventiveness and creativity are
revealing our nation's stories - both on the ground and in the virtual world.

One project which has received funding is *The Princes of Gwynedd*. The
Princes represent a time when Medieval Wales was independent and the
Princes held their own among the elites of Europe. Eight hundred years
on, European funding has given us independence and the opportunity to
go our own way. It has moved us to a place where we can feel confident
about our standing in Europe. Interpretation in Wales is coming of age!

With funding comes responsibility. We must look critically at what has
been done. By all means be proud of our achievements, but let's be honest
about what didn't work. Have we listened to the critics? Are we asking the
right questions in evaluating projects? What relevance do numbers have when
most of what we do is about feelings and emotions? What will happen in 5
years' time when the glossy sheen of newness has, quite literally, worn off?
Wales will receive another £2 billion of Structural Funds to help support
growth and increase jobs from 2014, but are we ready to take advantage of
this? There's much to celebrate, but let's not forget we've only just begun.

As always a big thank you to all our contributors who make the magazine
what it is. And thanks also to Natural Resources Wales for providing our
translations. Please send me your ideas for future articles.
I look forward to hearing from you.

Ruth Waycott

Editor

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 20 Spring 2014

Published by Natural Resources Wales on behalf
of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Natural Resources Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public
about our natural and cultural heritage through interpretation
of the highest quality, and to support interpreters by
networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing
the agencies whose logos appear below.

Contents

6-7 Investing in Wales' Heritage
Dave Penberthy

9 Great Expectations
Dave Penberthy

13-15 Walking in the footsteps of princes
Dr Sarah McCarthy

18 Mona Antiqua
Neil Johnstone

**19 An interpretive website for
Anglesey?** Susanne Intriligator

22-23 Four ways with interpretation
Charlotte Barnet

**26-27 Valleys Regional Park:
Reinterpreting the Valleys?**
David Llewellyn

**29 Tredegar through my eyes –
bringing stories to light** Becky Adams

32-33 Enhancing the Travelling Experience
Ryland Jones

**35 Valleys Ambassadors create
'a passion filled tourist destination'**
Jean Round

37 Interpreting the Wales Coast Path
Quentin Grimley

39 The Whitland Heritage story
Ken Rees

40 Museums at Night

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies

lethaconsultancy@gmail.com

tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

tel: 01600 860779

Front cover image: Conwy Castle (Cadw)

Above: Osprey in flight over Cors Dyfi
(copyright MWT)



Interpret Wales, issue 20

3

BUDDSODDI YN NHREFTADAETH CYMRU

Mewn rhifynnau blaenorol mae Dehongli Cymru wedi edrych ar y syniadaeth y tu ôl i 'Gynllun Dehongli Cymru Gyfan' a'i botensial i wneud ein gwlad fach yn arweinydd byd drwy ddehongli ar sail genedlaethol. Sut mae 'dehongli Cymru gyfan' yn datblygu mewn gwirionedd ar lawr gwlad? Diolch i'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth mae nifer o fentrau wedi cael eu cyflwyno sy'n adlewyrchu ethos Cymru gyfan. Mae **Dave Penberthy** yn gwibio drwy ddetholiad...

Castell Caerffili
Caerphilly Castle



Beth yw'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth?

Menter gwerth £19 miliwn a reolir gan Lywodraeth Cymru yw'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth i ddatblygu twristiaeth treftadaeth ledled Cymru, dan arweiniad Cadw a bydd yn para tan fis Rhagfyr 2014. Daw'r cyllid o dair ffynhonnell; £8.5m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop; £7.6m gan Lywodraeth Cymru; a bydd partneriaid cyflawni yn darparu'r arian sy'n weddill. Mae'r prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn ardal y Gronfa Gydgyfeirio gan gynnwys awdurdodau lleol, partneriaid treftadaeth a'r sector twristiaeth er mwyn sicrhau buddiannau i'r gymuned ehangach.

Nod y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yw:

- Gwella mynediad ffisegol a deallusol i safleoedd treftadaeth er mwyn denu ystod ehangach o ymwelwyr;
- Defnyddio safleoedd eiconig fel pyrth i atyniadau 'ffocws' eraill, er mwyn datblygu atyniadau treftadaeth rhanbarthol.
- Gwneud gwelliannau o ran mynediad a diogelwch ar y safleoedd;
- Datblygu a gweithredu themâu a straeon dehongli treftadaeth Cymru gyfan.

Felly beth sydd wedi digwydd?

Mae llwyddiant y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yn dibynnu ar gyflwyniad integredig o safleoedd treftadaeth a datblygu straeon ystyrlon a chofiadwy sy'n gwneud cysylltiadau rhwng safleoedd, lleoedd, pobl a chymunedau. Mae deuddeg cynllun dehongli Cymru gyfan yn cyflwyno themâu allweddol treftadaeth Cymru yn

genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol (gweler: <http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/interpretationplans/?lang=cy>). Dyma rai o'r prosiectau, a gwblhawyd o dan y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, sydd wedi mabwysiadu ethos dehongli Cymru gyfan.

Safle Treftadaeth y Byd Gwaith Haearn Blaenafon

Defnyddiwyd cymysgedd o waith addurniadol a gwaith haearn o oes Fictoria fel ysbrydoliaeth ar gyfer y dehongliad. Mae model dur corten wrth raddfa o'r gwaith haearn yn helpu ymwelwyr i ddeall yn well faint y safle ar ei anterth. Mae profiad sain a golau tri dimensiwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer y tŷ bwrw a fydd yn esbonio'r broses o wneud haearn. (Bydd pobl a ymwelodd â'r safle fel rhan o gynhadledd AHL yn 2009 yn falch o glywed bod toiledau newydd hefyd!)

Castell Caeriw (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)

Mae'r Neuadd Fach wedi cael to newydd ac wedi'i haddurno â deunyddiau o gyfnod y Tuduriaid ac mae bellach yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau mawr. Cyfrannodd y gymuned at y gwaith o ddylunio a chreu canhwyllyr a goleuadau eraill yn y neuadd. Adeiladwyd cyfleusterau newydd i ymwelwyr gan gynnwys siop, derbynfa a thoiledau yn yr ardd furiog.

Castell Caerffili (Cadw)

Cafodd Caerffili, sef castell mwyaf Cymru a chastell mwyaf ond un y DU, gyllid i wella ei ddehongliad sydd wedi bod yn oddefol yn y gorffennol. Defnyddiwyd

Byrddau picnic dehongliadol
yn rhoi cyfle i ymwelwyr
ddysgu ffeithiau diddorol am
Ddewi Sant wrth fwyta.

Interpretive picnic tables
give visitors the chance to
learn interesting facts about
Saint David as they eat.



cyfryngau uwch-dechnoleg ac is-dechnoleg. Gosodwyd cerfluniau a gemau injan gwarchae ar ffurf bagatél (a rhai paneli!) a defnyddiwyd technoleg ddigidol i ail-greu tân yn y Neuadd Fawr, porthcwlls sy'n gweithio ac animeiddio 270 gradd. Mae bwrdd sgrîn gyffwrdd rhyngweithiol anferth yn archwilio archifau Ardalydd Bute a adferodd y castell.

Castell Conwy (Cadw)

Mae'r cynllun hwn yn mabwysiadu dull integredig, gan gysylltu'r castell â muriau'r dref a safleoedd treftadaeth eraill yng Nghonwy a'r cyffiniau. Roedd y gwaith dehongli yn cynnwys gwaith pum artist sy'n gweithio yng Nghymru a ymatebodd i hanes y Castell yn eu lleisiau eu hunain yn ogystal ag animeiddio rhagarweiniol yn y ganolfan ymwelwyr sydd wedi cael ei hadnewyddu'n llwyr.

Castell Dinbych (Cadw)

Mae'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth wedi cefnogi canolfan ymwelwyr bwrpasol, wedi gwella dulliau cyflwyno a dehongli'r heneb a muriau'r dref, ac wedi creu cysylltiadau â thirwedd hanesyddol ehangach Dinbych.

Ffwrnais Dyfi (Cadw)

Mae'r heneb hon heb staff ar y safle - yr enghraifft orau o ffwrnais haearn wedi'i thanio gan siarcol sydd wedi goroesi yng Nghymru - wedi cael ei hadnewyddu. Mae seddi a sgriniau wedi'u dylunio gan artist a llwybr i blant yn helpu ymwelwyr i ddehongli'r ffwrnais a gallant hefyd lawr-lwytho darn byr ar yslumod Trwyn Pedol Lleiaf a fflimiwyd ar gyfer un o raglenni Springwatch y BBC.

Llys yr Esgob Tyddewi (Cadw)

Mae gwaith dehongli newydd yn cynnwys sain atmosfferig, paneli a 'chiwbiau golau' a chyfres o gemau bwrdd picnic. Mae Chwilfa Llys yr Esgob yn gwahodd teuluoedd i ddod o hyd i gwpan yr esgob sydd ar goll cyn iddo gyrraedd ar gyfer gwledd. Lleolir y clwbiau o amgylch y safle, sy'n annog teuluoedd i ddarganfod a deall y llys.

Abaty Ystrad Fflur (Cadw)

Yr abaty hwn fu canolfan y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ar un adeg. Yma rydym wedi creu arddangosfa newydd yn lle'r hen un - credwn fod yr hen un yn 25 mlwydd oed, sef yr hynaf gan Cadw! Roedd rhan o'r cynllun wedi cynnwys bardd cenedlaethol Cymru Gwyneth Lewis a ysgrifennodd ddwy gerdd yn benodol am ei hoff le hi yng Nghymru. Adeiladwyd ardal ddiwyddiadau gyda chynllun llawr o'r Abaty yn hen ardd y gegin fferm.

Rhufeiniaid ym Mannau Brycheiniog

Mae'r app RomanWalk yn dod â gweddillion prin gwersyll ymdeithio a chaer Rufeinig yn fyw drwy sain ac animeiddio sy'n cychwyn wrth gyrraedd y lleoliad. Mae dau dywysydd llawn cymeriad - un modern, un Rhufeinig - yn dehongli'r safleoedd ond nid ydynt bob amser yn cytuno!

Safleoedd eraill

Mae gwaith yng Nghastell Ystumllwynarth (Dinas a Chyngor Abertawe) wedi gwella mynediad i'r safle a'i apêl i ymwelwyr. Rhoddir sylw i ddau brosiect arall, Tywysogion Gwynedd (consortium) a Mona Antiqua (Mentor Môn) ar y tudalennau canlynol.

Y dyfodol

Mae lluo o brosiectau'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yn dal i gael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect mawr ar Safle Treftadaeth y Byd Castell Harlech i ddatblygu canolfan newydd i ymwelwyr yn hen Westy'r Castell. Mae gwaith ar droed ar Safle Treftadaeth y Byd diweddaraf Cymru - Safle Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas. Yng ngorllewin Cymru bydd nifer o bartneriaid yn darparu dehongliadau mewn cestyll sy'n ymchwilio i straeon 'Tywysogion y Deheubarth'. Bydd prosiect Gwaith Copr Hafod a Morfa (Abertawe) yn ailgyflwyno hanes yr hen gawr diwydiannol hwn gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Casgliad

Mae'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth wedi helpu i sefydlu 'dehongliad Cymru gyfan' mewn ystyr ffisegol ar draws llawer o Gymru. Mae gwerthusiad o'r gwaith i fesur llwyddiant ac effaith y prosiectau ar y gweill. Ond mae llawer o waith eto i'w wneud i ennyn diddordeb partneriaid newydd yn y gwaith o gyflwyno straeon Cymru mewn ffordd gydlynol a chydlynus y tu hwnt i'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth. Mae Cadw yn bwriadu cynnal cylch arall o waith dehongli i gefnogi hyn.

Dave Penberthy yw
Pennaeth Dehongli Cadw
e-bost: david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

INVESTING IN WALES' HERITAGE

Cerflunwaith yng
Nghastell Caerffili
Sculptural artwork
at Caerphilly Castle

In previous issues Interpret Wales has looked at the thinking behind the 'Pan Wales Interpretation Plan' and its potential to make our small country a world leader through a national approach to interpretation. How is 'pan Wales interpretation' actually progressing on the ground? Thanks to the Heritage Tourism Project (HTP) a range of initiatives have been delivered that reflect the pan Wales ethos. **Dave Penberthy** whizzes through a selection...



Interpret Wales, issue 20

6

What is HTP?

The Heritage Tourism Project is a £19 million Welsh Government managed initiative to develop heritage tourism across Wales, led by Cadw and running until December 2014. Funding comes from three sources; £8.5m from the European Regional Development Fund; £7.6m from the Welsh Government; delivery partners provide the remaining funds. The project is working with stakeholders in the Convergence Funding area including local authorities, heritage partners and the tourism sector to ensure benefits for the wider community.

The HTP aims to:

- Improve physical and intellectual access to heritage sites to attract a wider range of visitors;
- Use iconic sites as gateways to other 'hub' attractions for regional heritage attraction development;
- Undertake access and safety improvements at sites; and
- Develop and implement the pan-Wales heritage interpretation themes and stories.

So what's happened?

The success of the HTP hinges on an integrated presentation of heritage sites and the development of meaningful and memorable storylines that make connections between sites, places, people and communities. Twelve pan-Wales interpretation plans present key themes of Welsh heritage at national, regional and local levels (see: <http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/interpretationplans/?lang=en>). Here are some of the projects, completed under HTP, which have adopted the pan Wales interpretation ethos.

Blaenavon Ironworks World Heritage Site (Cadw)

A mix of Victorian ornamental and ironworking functionality was used as inspiration for the interpretation. A corten steel scale model of the ironworks enables visitors to better understand the size of the site at its peak. An immersive sound and light experience is being developed for the casting house which will explain the iron-making process. (People who visited the site as part of the AHL conference in 2009 will be pleased to hear there are new toilets as well!)

Carew Castle (Pembrokeshire Coast National Park Authority)

The Lesser Hall has been re-roofed and dressed with period Tudor furnishings and now provides a large events venue. The community was involved in designing and creating a chandelier and other lighting in the hall. New visitor facilities have been built including a shop, admissions and toilets in the walled garden.

Caerphilly Castle (Cadw)

Wales's largest castle and the UK's second largest, Caerphilly received funding to improve its previously passive interpretation. Both low tech and high tech media have been used. Sculpture and bagatelle-like siege engine games (and some panels!) have been installed and digital technology used to recreate a fire in the Great Hall, a working portcullis and a 270 degree animation. A giant interactive touch-screen table explores the archives of the Marquess of Bute who restored the castle.

Conwy Castle (Cadw)

This scheme adopts an integrated approach, linking the castle with the town walls and other heritage sites within Conwy and its vicinity. Interpretation included the work of five Wales - based artists responding to

the history of the Castle in their own voices as well as an introductory animation in the fully refurbished visitor centre.

Denbigh Castle (Cadw)

The HTP has supported a purpose-built visitor centre, improved the presentation and interpretation of the monument and town walls, and forged links with the wider historic landscape of Denbigh.

Dyfi Furnace (Cadw)

This unstaffed monument - the best preserved charcoal fired iron furnace in Wales - has had a simple makeover. Artist-designed seating and screens and a children's trail help interpret the furnace to visitors who can also download on site a brief clip of Lesser Horseshoe bats filmed for an episode of BBC's Springwatch.

St Davids Bishop's Palace (Cadw)

New interpretation includes atmospheric audio, panels and 'lightcubes' and a series of picnic table top games. The Bishop's Palace Quest invites families to locate the bishop's missing cup before he arrives for a feast. The clues are located around the site, encouraging families to explore and understand the palace.

Strata Florida Abbey (Cadw)

This abbey was once the centre of art and culture in Wales. Here we have replaced the oldest exhibition in Cadw's ownership - we think it was 25 years old! Part of the scheme involved Wales' first Poet Laureate Gwyneth Lewis who penned two poems specifically about her favourite place in Wales. An events area with a floor plan of the Abbey was built in the old farm kitchen garden.

Romans in the Brecon Beacons

The RomanWalk app brings the scant remains of a Roman marching camp and

fortress to life through location-triggered audio and animation. Two characterful tour guides - one modern, one Roman - interpret the sites but don't always get along!

Other sites

Work at Oystermouth Castle (City and Council of Swansea) has improved both access to the site and its appeal to visitors. Two other projects, the Princes of Gwynedd (consortium) and Mona Antiqua (Mentor Mon), feature in the following pages.

The future

A host of other HTP projects are still under development. These include a major project at Harlech Castle World Heritage Site to develop a new visitor centre in the old Castle Hotel. Currently work is afoot at Wales' newest World Heritage Site - Pontcysyllte Aqueduct and Canal. In west Wales a number of partners will deliver interpretation at castles exploring the stories of the 'Princes of Deheubarth'. The Hafod and Morfa Copperworks project (Swansea) will see the latest technology bringing the story of this former industrial giant back to life.

Conclusion

HTP has helped to establish 'pan Wales interpretation' in a physical sense across much of Wales. Evaluation is underway to measure the success and impact of the projects. But there is still work to do in engaging new partners in delivering the stories of Wales in a coherent and cohesive way beyond the Heritage Tourism Project. Cadw is planning a further round of interpretation planning to support this.

Dave Penberthy is Head of Interpretation at Cadw
e. david.penberthy@wales.gsi.gov.uk



Plas yr Esgob
Tŷ Ddewi
St Davids
Bishop's Palace

Interpret Wales, issue 20

7

Hanes dau gastell

Mae'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth wedi buddsoddi dros £19 miliwn i wneud y mwyaf o werth economaidd treftadaeth - drwy gynyddu nifer, hyd a gwerth ymweliadau a thrwy agor treftadaeth Cymru i gynulleidfa ehangach. Dau o'r prosiectau cyntaf i'w cwblhau o dan y cynllun oedd Cestyll Conwy a Dinbych ac maent newydd gael eu harfarnu i weld a ydynt yn bodloni'r amcanion hyn. **Dave Penberthy** sy'n rhannu'r canlyniadau...

Cefndir

Mae'r dehongli newydd wedi ceisio herio'r dulliau mwy traddodiadol o ddehongli a fabwysiadwyd yn hanesyddol ar draws ystâd Cadw. Fe'i targedwyd i apelio at deuluoedd sy'n ymweld, un o gynulleidfaoedd craidd Cadw.

Yng Nghonwy, defnyddiwyd cerfluniau, animeiddio, taflunio digidol, paneli a llwybr teulu rhyngweithiol. Yn Ninbych roedd yr arlwy newydd yn cynnwys arddangosfa fach, llwybr teulu, paneli a deunydd sain.

Cytunwyd mai diben yr arfarnu (a wnaed gan No-Nonsense Interpretation Ltd) oedd canfod a oedd y dehongli newydd wedi:

- gwella boddhad yr ymwelydd (y targed oedd bod o leiaf 90% o'r ymwelwyr yn dweud fod eu profiad wedi bod yn dda neu'n ardderchog).
- esgor ar brofiad ehangach a dyfnach i'r ymwelydd.
- gwella deallusrwydd yn y ddau safle.

Methodoleg

Defnyddiwyd holiaduron wyneb yn wyneb, holiaduron llenwi'ch hun a dulliau arsylwi ymwelwyr. Yng Nghonwy cwblhawyd 153 o holiaduron wyneb yn wyneb a 7 arolwg llenwi'ch hun. Cafwyd wyth awr o astudiaeth arsylwad. Yn Ninbych, holwyd 29 o bobl a dychwelwyd 53 o arolygon llenwi'ch hun. Cynhaliwyd chwe awr o astudiaeth arsylwad. Proseswyd y data i gyd gan The Research Solution (www.thers.co.uk) ac fe'i dadansoddwyd gan No-Nonsense Ltd.

Y Canfyddiadau

Drwyddi draw canfu'r arfarniad fod y datblygiadau wedi gwella profiad yr ymwelydd yn y ddau safle, gyda lefelau boddhad yn cael eu cofnodi ar dros 90% a thros 90% yn dweud fod eu gwerth-fawrogiad o'r cestyll wedi cynyddu naill ai 'yn fawr' neu 'gryn dipyn'.

Roedd sylwi ar ymgysylltiad yr ymwelydd, megis cyffwrdd, pwyntio a thrafod cynnwys panel yn y ddau gastell, yn ategu canfyddiadau'r holiaduron. Yn Ninbych edrychodd bron i 90% o'r ymwelwyr ar bob un neu'r rhan fwyaf o'r paneli. Yng Nghonwy roedd y ffigwr hwn bron yn 80%. Dywedodd bron i hanner yr ymwelwyr fod y cerfluniau yn 'hwyl', a byddai 80% o'r ymwelwyr yn hoffi gweld mwy o waith celf ar safleoedd Cadw.

Mae'n amlwg o'r cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn Ninbych fod ymwelwyr yn gwerthfawrogi cyfryngau sy'n fwy addas at deuluoedd (69%) gan fod hyn yn ychwanegu at eu mwynhad a'u dealltwriaeth. Credai pawb eu bod yn 'dipyn o hwyl i'r plant'. Wrth edrych ar ymwelwyr yn Ninbych gwelwyd fod y plant yn llawn bywyd ac wedi'u cyffroi gan y llwybr a bod y llwybr yn rhoi strwythur i'w hymweliad, yn adrodd stori yn ei threfn.

Dangosodd yr ymchwil hefyd fod y fethodoleg "...Dilynwyd y Stori" yn codi ymwybyddiaeth mewn cynulleidfaoedd ac yn eu hannog i ymweld â safleoedd cysylltiedig".

Casgliadau

Er mai dim ond llun sydyn y gall yr arolwg ei gynnig o sut y derbyniwyd dehongli yn y ddau safle gan ymwelwyr, mae'n galonogol fod y cyfryngau gwahanol a ddefnyddiwyd gan Cadw wedi cael ymateb da iawn.

'Roedd y llwybr a'r paneli'n annog ymwelwyr i chwilio am nodweddion yn yr ystafelloedd a thrafod yr hyn a welsant.' (Adroddiad Gwerthuso Di-Iol)

'The trail and panels encouraged visitors to look for features in the rooms and discuss their findings.' (No-Nonsense Evaluation Report)



Top: Castell Dinbych Uwchben a De: Castell Conwy

Top: Denbigh Castle
Above and Right: Conwy Castle

"Mae'r astudiaeth hon yn dangos gwerth dull gweithredu hierarchaidd o gyflwyno cyfryngau deongliadol mewn safleoedd treftadaeth. Mae hyn yn fwyaf amlwg yng Nghonwy lle mae'r cyfuniad o gyfryngau yn cynnal diddordeb pobl ar sawl lefel yn ddeallusol, emosïynol ac ymddygiadol... Dangosodd yr arsylwadau fod y gwaith celf yng Nghastell Conwy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ymwelwyr. Gwelwyd nifer o grwpiau'n treulio munudau yn rhyngweithio â lle tynnu lluniau'r Gwarchodwr Diflas." (Adroddiad Gwerthuso Di-Iol)

Bu'r ymatebion i'r defnydd o gerfluniau a gwaith celf yng Nghonwy yn eithriadol o gadarnhaol. Cafodd y gwelliannau i'r arlwy teuluol yn Nibych groeso gan deuluoedd a'u mwynhau gan groestoriad ehangach o gynulleidfaoedd. Mae'n rhy gynnar i fesur holl uchelgeisiau'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, ond gydag amser bydd hi'n ddiddorol gweld effaith gyfunol y dehongli newydd ledled Cymru o safbwynt cynyddu 'nifer, hyd a gwerth ymweliadau â Chymru' a 'chynulleidfaoedd newydd'.

Dave Penberthy
yw Pennaeth Dehongli Cadw
e. David.Penberthy@Wales.GSI.Gov.UK

Great expectations a tale of two castles

The Heritage Tourism Project (HTP) has invested over £19 million to maximise the economic value of heritage - by increasing the number, length and value of visits and by opening Wales' heritage to a wider audience. Conwy and Denbigh Castles, two of the earliest projects to be completed under the scheme, have recently been evaluated to see if they are meeting these objectives. **Dave Penberthy** shares the results...

Background

New interpretation has sought to challenge the more traditional approaches historically adopted across Cadw's estate. It has been targeted to appeal to family visitors, one of Cadw's core audiences. At Conwy sculpture, animation, digital projection, panels and an interactive family trail were used. At Denbigh the new interventions included a small exhibition, family trail, panels and audio.

The agreed purpose of the evaluation (undertaken by No-Nonsense Interpretation Ltd) was to find out if the new interpretation had:

- improved visitor satisfaction (the target was that at least 90% of visitors rate their experience as good to excellent).
- encouraged a broader and deeper visitor experience.
- improved intellectual access at both sites.

Methodology

Face-to-face questionnaires, self-completion questionnaires and visitor observation techniques were used. At Conwy 153 face-to-face questionnaires were completed, and 7 self-completion surveys. Eight hours of observational study took place. At Denbigh, 29 people were interviewed and 53 self-

completion surveys returned. Six hours of observational study was conducted. The resulting data was processed by The Research Solution (www.thers.co.uk) and analysed by No-Nonsense Ltd.

Findings

Overall the evaluation found that developments have improved the visitor experience at both sites, with satisfaction levels recorded as over 90% and over 90% saying that their appreciation of the castles had increased either 'a lot' or 'quite a lot'.

Observed evidence of visitor engagement, such as touching, pointing and discussion of the panel content at both castles supports the findings of the questionnaires. At Denbigh almost 90% of visitors looked at all or most of the panels. At Conwy this figure was nearly 80%. Almost half of visitors said the new sculptures were 'fun', and 80% of visitors would like to see more artwork at Cadw sites.

It is clear from the face to face interviews at Denbigh that visitors appreciate more family friendly media (69%) as it added to their enjoyment and understanding. All thought it was 'good fun for kids'. Observation of visitors at Denbigh showed that children were very animated and excited by

"This study shows the value of a hierarchical approach to interpretive media at heritage sites. This is most obvious at Conwy where the mix of media employed engages people at many levels intellectually, emotionally and behaviourally... Observation showed that the artworks at Conwy Castle positively affected visitor behaviour. Many groups spent several minutes interacting with the Bored Guard photo point." (No-Nonsense Evaluation Report)

the trail and that the trail gave a structure to their visit, telling a story sequentially.

The research also indicated that the 'Follow the Story' methodology raised awareness with audiences, encouraging an intention to visit related sites.

Conclusions

Whilst this survey provides only a snap-shot of how interpretation at both sites has been received by visitors, it is encouraging that the new approaches to media taken by Cadw have been very well received. Responses to the use of sculpture and artworks at Conwy have been overwhelmingly positive. Improvements to the family offer at Denbigh have been well received by family visitors and enjoyed by a wider cross section of audiences. It is too early to measure all of the aspirations of the Heritage Tourism Project, but as time passes it will be interesting to see the collective impact of new interpretation across Wales - especially in terms of increasing 'the number, length and value of visits to Wales' and 'encouraging new audiences'.

Dave Penberthy is Head of Interpretation at Cadw
e. David.Penberthy@Wales.GSI.Gov.UK



CERDDED YN ÔL TROED TYWYSOGION

Os gofynnwch i Gymro beth sy'n ei wneud ef neu hi'n Gymro neu'n Gymraes, cewch lawer o atebion, pob un yn adlewyrchu cymysgedd gwahanol o ddaearyddiaeth, hanes, diwylliant ac iaith. Mae'r cymysgedd hwn yn cyfuno i greu hunaniaeth genedlaethol Gymreig oesol. Does dim angen edrych ymhellach na'r Eisteddfod Genedlaethol neu'r dyrfa sy'n bloeddio cymeradwyaeth i dîm rygbi Cymru i weld y balchder angerddol mewn Cymreictod byw, parhaus. Yn y Gogledd dylanwadwyd yn gryf ar yr ymdeimlad hwn o hunaniaeth a balchder cenedlaethol gan dywysogion Gwynedd. Nhw oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i brosiect dehongli mawr newydd, fel yr eglura **Sarah McCarthy**.

Mae tywysogion Gwynedd yn cynrychioli cyfnod pan oedd Cymru'n annibynnol; yn wlad â'i theulu brenhinol, ei deddfau a'i bywyd llys ei hun. Nid rhyw le marwaidd oedd Cymru'r Oesoedd Canol – roedd tywysogion Gwynedd yn cymysgu â theuluoedd brenhinol eraill Ewrop – gan gynghreirio â brenin Ffrainc, Philip Augustus II, yn ogystal â'r Babaeth. Roedd gan y tywysogion ddylanwad gwleidyddol sylweddol hefyd ym Mhrydain, er enghraifft, drwy gynghreirio â'r barwniaid Seisnig yng ngwrthryfel 1214, enillodd Llywelyn Fawr gonsesiynau o bwys i Gymru yn y Magna Carta.

Mae dylanwad y tywysogion yn para hyd heddiw, 700 mlynedd ar ôl eu teyrnasiad, a nod prosiect Tywysogion Gwynedd yw gwneud yr hanes hwn yn fwy real a hygyrch. Mae'n un o Brosiectau Twristiaeth Treftadaeth £19m Cadw, yn cael ei noddi'n rhannol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac mae'r prosiect yn gonsortiw m sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae wedi darparu chwe phorth arddangos (pedwar gydag elfennau amlgyfrwng), gwefan bwrpasol gyda mapiau a theithiau i'w lawrlwytho, arweinyfyr, cerddoriaeth a barddoniaeth ganoloesol sydd wedi'u comisiynu'n arbennig, dwy ffilm, arwyddion a phum prosiect cymunedol.

Prif ffocws y gweithgarwch fu creu cyfres o arddangosfeydd bach am dywysogion Gwynedd. Yn ystod 800 mlynedd eu llinach gwelwyd tywallt gwaed ond hefyd gwelwyd ffyniant diwyllianol a chymdeithasol a dylanwad gwleidyddol. Wrth ddatblygu'r arddangosfeydd hyn fe wnaethom ddilyn cyngor Cadw a chreu cyfres o byrth neu fannau ymweld. Mae'r pyrrth yn cyflwyno ymwelwyr i'r thema ac yn eu hysbrydoli i 'ddilyn y stori' allan i'r dirwedd drwy rwydwaith o safleoedd sydd wedi'u dynodi ag arwyddion. O blith 150 o safleoedd a oedd â chysylltiad â'r tywysogion, dewiswyd 30, oherwydd eu hygyrchedd corfforol, eu gwasgariad daearyddol a pha mor gynrychiadol oeddent o'r thema.

Roeddem yn pryderu am y ffordd y mae'r tywysogion wedi cael eu dehongli'n draddodiadol a'r argraffiadau poblogaidd ohonynt, sy'n eu darlunio fel pobl ryfelgar a oedd yn ymladd y Saeson yn barhaus. Gallem fod wedi gwneud y dewisiadau hawdd a chanol-bwyntio'n llwyr ar safleoedd dramatig fel Castell Dolwyddelan, sy'n edrych i lawr ar Ddyffryn Lledr, neu Ddolbadarn, yng nghysgod yr Wyddfa, lle cadwodd tywysog olaf Gwynedd, Llywelyn ap Gruffudd, ei frawd Owain yn gaeth am 22 flynedd, neu Gricieth, ar arfordir gogleddol Bae Ceredigion. Mae'r rhain, cestyll y tywysogion, yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i dynnu lluniau trawiadol ac maent yn sicr yn amlgu grym a statws. Perffaith!

Fodd bynnag, roedden ni am ddangos 'ochr arall' y tywysogion – sut roedden nhw'n byw yn hytrach na sut roedden nhw'n marw. Teimlem fod hon yn etifeddiaeth y gallai pobl Cymru fod yr un mor falch ohoni ac y dylai ymwelwyr hefyd allu ei harchwilio.

Yn nheyrnas hynafol Gwynedd y mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf heddiw. Roeddem am ddangos barddoniaeth wych ac iaith llys gyfoethog y tywysogion a thynnu sylw at eu cyfundrefn gyfreithiol, a oedd yn radical yn ei hoes. Er enghraifft, roedd un ddeddf yn caniatáu i fenyw hawlio hanner cyd eiddo cwpl pe bai'n gwahanu oddi wrth ei gŵr ar ôl saith mlynedd o briodas. Roedd hynny'n cynnwys plant a hyd yn oed gathod anwes. Mae llawer o'r safleoedd sy'n cynrychioli'r ochr 'arall' hon, fel y llys yn Abergwyngregyn, yn ymddangos yn llawer llai rhwysgawr na'r cestyll. Ond, yn nechrau'r 13eg ganrif, y llys hwn oedd un o hoff breswylfeydd Llywelyn Fawr, yr oedd ei wraig, Siwan, yn ferch i'r Brenin John o Loegr. O dan deyrnasiad y tywysogion hefyd gwelwyd pensaernïaeth eglwysig yn ffynnu, a gwelir hyn ym Mhriordy Penmon ar Ynys Môn ac yn Abaty Cymer ger Dolgellau. Y ffyniant yr oedden nhw a'u deiliaid yn ei fwynhau a grëodd dirlun economaidd Gogledd Cymru, fel y'i disgrifiwyd yn *Historia Gruffudd ap Cynan*, a oedd yn rheoli Gwynedd ar ddechrau'r 12fed ganrif:

"O hynny ymlaen, daeth pethau da o bob math yn fwy cyffredin yng Ngwynedd, a dechreuodd y dinasyddion godi eglwysi ym mhob rhanbarth o'r deyrnas, a hau a phlannu coed, creu perllannau a gerddi, a'u hamgylchynu â ffensys a ffosydd, a chodi adeiladau, a bwyta ffrwythau'r ddaear fel ag a wnâi'r Rhufeiniaid. Cododd Gruffudd hefyd eglwysi mawr iddo'i hun yn y prif lysoedd, ac adeiladodd a chynhaliodd ei lysoedd gyda gwleddoedd yn gyson ac yn anrhydeddus."



Castell
Dolwyddelan
Dolwyddelan
Castle
© Tywysogion
Gwynedd/Princes of
Gwynedd/Kiran Ridley



Bethan Gwanas yn cyflwyno'r ffilm Tywysogion Gwynedd wrth lansio'r prosiect, Craflwyn, Beddgelert.

Bethan Gwanas introduces the Princes of Gwynedd film at the project launch, Craflwyn, Beddgelert.

© Tywysogion Gwynedd/
Princes of Gwynedd

Arddangosfa fach Tywysogion Gwynedd yng Nghanolfan Croeso Canolfan Hebog ym Meddgelert.

The Princes of Gwynedd mini exhibition at Canolfan Hebog Tourist Information Centre in Beddgelert.

© Sarah McCarthy





Yr olygfa o'r môr
o Abergwyngregyn,
safle'r llys brenhinol
neu Lys Llywelyn Fawr.

The view out to sea from
Abergwyngregyn, site of the
royal court or llys of Llywelyn
the Great.

© Tywysogion Gwynedd/Princes
of Gwynedd/ Sarah McCarthy

Model o Llywelyn Fawr,
Eglwys y Santes Fair, Trefriw.
Mannequin of Llywelyn the Great,
St Mary's Church, Trefriw.
© Tywysogion Gwynedd/
Princes of Gwynedd

Rhoddwyd cryn bwyslais ar wneud yn siŵr fod y dehongli yn gynhwysfawr ac wedi'i seilio ar wybodaeth gywir. Cafodd y tîm prosiect, oedd â phrofiad helaeth mewn twristiaeth, archeoleg, amgueddfeydd a dehongli, gymorth a chynghor gan dîm bach o arbenigwyr. Roedd y cyfyngiadau geiriau ar baneli, a'r gydnabyddiaeth fod y darpar gynulleidfaoedd yn hynod o amrywiol eu diddordebau a'u hanghenion, yn peri rhwystredigaeth iddynt ar adegau yn eu brwdfrydedd gwybodus, ynghyd â'r ffaith na fyddai'r rhan fwyaf o ymwelwyr â'r pyrrth arddangos – mewn Canolfannau Croeso yn bennaf – yn bobl o Gymru: byddai hanes Cymru a'r Gymraeg yn ddieithr iawn iddynt.

Un o'r sialensiau mwyaf fu taro'r cywair iawn wrth gyfleu stori gyfareddol a chymhleth y tywysogion heb orlethu ymwelwyr â gormodedd o ddyddiadau a digwyddiadau yn gysylltiedig, i lawer o ymwelwyr, ag enwau na allant eu hynganu. Gobeithiwn ein bod wedi sicrhau cydbwysedd braf. Gall hyd yn oed gwestiynau syml fel "a ddylai 'tywysogion Gwynedd' gael ei sillafu â 't' fach ynteu brif lythren?" achosi trafodaeth hirfaith weithiau. Cawsom ein hunain yn pwysu a mesur gwahanol ffyrdd o ymdrin â darlunio archeolegol, a buom hyd yn oed yn trafod statws plant anghyfreithlon yn yr Oesoedd Canmol ac a oedd yn bwysig fod gwraig Llywelyn Fawr, Siwan, yn ferch anghyfreithlon i'r Brenin John. Wrth edrych yn ôl mae rhai pethau y byddem yn eu gwneud yn wahanol: byddem yn cynhyrchu'r cynnwys yn ganolog ym mhob elfen, a byddem yn cyflogi ysgrifennwr copi a golygydd copi i gynhyrchu a goruchwyllo'r holl ddehongli.

Rydym yn arbennig o falch o'r teithiau a ddyfeisiwyd, sydd yn yr arweinydd yn ogystal â bod ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan. Yn amrywio o deithiau cerdded syml i her feicio dros sawl diwrnod, 'Taith Llywelyn Fawr', maen nhw hefyd yn cynnwys taith dridiau werdd a chrand ar y rheilffordd, gan ymweld â naw safle allweddol sy'n gysylltiedig â'r tywysogion ar draws Gogledd Cymru. Mae ein prif borth yng Nghonwy yn cyflwyno'r cyd-destun yn wych ac, fel y porth cyntaf i gael ei gwblhau, mae'n gosod y tôn a'r arddull ar gyfer holl gynnyrch dehongli arall y prosiect. Llwyddiant arall yw'r gwelliant mawr o ran mynediad i Ddinas Emrys – byddai

rhai'n dweud mai hwn yw'r safle mwyaf cyfareddol a rhyfeddol sy'n gysylltiedig â thywysogion Gwynedd. Ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Craflwyn, mae tunelli o gerrig wedi cael eu saernïo'n llwybrau hardd ar hyd y rhwydwaith o ffyrdd sy'n arwain i Ddinas Emrys. Ac, ym mhorth Beddgelert gerllaw, bydd y wybodaeth yn y ciosg sgrin gyffwrdd 'Lightbox' ar gael nid yn unig yn Gymraeg a Saesneg ond hefyd mewn Iseldireg, Almaeneg a Ffrangeg.

Ond efallai mai gwaddol pwysicaf prosiect Tywysogion Gwynedd yw ei fod yn codi proffil un o'r cyfnodau pwysicaf yn hanes Cymru yn sylweddol. Drwy ddolenni 'dilyn y stori', teithiau sydd wedi'u cynllunio'n hwylus, lluniau a disgrifiadau sy'n dod â'r cyfnod yn fyw yn ogystal â gwell mynediad, mae'r prosiect wedi creu gwahoddiad real a hynod ddeniadol i ymwelwyr – i fentro allan i dirwedd Gogledd Cymru a cherdded yn ôl traed tywysogion.

I gael gwybodaeth rhagor ewch i: www.snowdoniaheritage.info

Mae Dr Sarah McCarthy yn ymgynghorydd treftadaeth a rheolwr prosiect llawrydd sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru.

Mae'r consortiwm a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi sicrhau rhagor o arian ar gyfer prosiect 'Ein Treftadaeth / Our Heritage' dan arweiniad Cyngor Gwynedd a fydd yn adeiladu ar lwyddiant prosiect Tywysogion Gwynedd.

WALKING IN THE FOOTSTEPS OF PRINCES

If you ask a Welsh person what makes him or her Welsh you will get many answers, each drawing on a different blend of geography, history, culture and language. This mixture combines to form a dynamic Welsh national identity. You need look no further than the National Eisteddfod or the crowd cheering on the Welsh rugby team to witness this passionate pride in a living, enduring Welshness. In North Wales this sense of national identity and pride has been strongly influenced by the princes of Gwynedd. They have been the inspiration behind a major new interpretation project, as **Sarah McCarthy** explains.

The princes of Gwynedd represent a time when Wales was independent; a country with its own royal family, laws and courtly way of life. Medieval Wales was no backwater – the princes of Gwynedd held their own among the other ruling elites of Europe – sealing alliances with the French king Philip Augustus II as well as the Papacy. The princes also exerted considerable political influence in Britain, for example, through his alliance with the Baron's Revolt in 1214, Llywelyn the Great won significant concessions for Wales in the Magna Carta.

The influence of the princes continues to this day, 700 years after their reign, and the Princes of Gwynedd project aims to make this history more tangible and accessible. One of Cadw's £19m Heritage Tourism Projects, and part-funded through the European Regional

Development Fund, the project is a consortium led by Conwy County Borough Council in partnership with Gwynedd Council, Snowdonia National Park Authority and the National Trust. It has delivered six bi-lingual hub exhibitions (four with multi-media elements), a dedicated website with downloadable maps and itineraries, a guidebook, a specially-commissioned suite of medieval music and poetry, two films, signage and five community projects.

The primary focus of activity has been the creation of a series of mini-exhibitions about the princes of Gwynedd. Their 800-year dynasty brought bloodshed but also cultural and social prosperity and political influence. In developing these exhibitions we took our cue from Cadw creating a series of hubs or stepping-off points. The hubs introduce visitors to the theme and effectively

Mwynhau'r golygfeydd draw at Ddinas Emrys
o sedd gerfiedig y ddraig yn Craflwyn.

Enjoying the views out to Dinas Emrys
from the sculpted dragon seat at Craflwyn.

© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd



inspire them to 'follow the story' out into the landscape via a network of signposted sites. 150 sites having an association with the princes were whittled down to 30, chosen for their physical accessibility, geographical spread and how representative they were of the theme.

We were concerned about the traditional interpretation and popular perceptions of the princes, which cast them as warmongers who were constantly fighting against England. We could have opted for an easy life and focused purely on such dramatic sites as Castell Dolwyddelan which commands the Lledr Valley, or Dolbadarn, underneath Snowdon, where the last prince of Gwynedd, Llywelyn ap Gruffudd held his brother Owain captive for 22 years, or Criccieth, on the north coast of Cardigan Bay. These, the princes' castles, provide incomparable photo opportunities and are unmistakable demonstrations of power and status. Perfect!

However we wanted to show 'the other side' of the princes – how they lived rather than died. This is a legacy of which we felt Welsh people could be equally as proud and one that visitors should also be able to explore. The ancient kingdom of Gwynedd is where the Welsh language is strongest today. We wanted to show off the magnificent poetry and rich courtly language of the princes and draw attention to their system of laws, which was radical for its time. For example, one law allowed a woman to claim half of a couple's joint possessions if separating from her husband after seven years of marriage. Children and even pet cats were

included! Many of the sites that represent this 'other' side, such as the court (llys) at Abergwyngregyn, seem less imposing than the castles. But, in the early 13th century, this llys was one of the favourite residences of Llywelyn the Great, whose wife, Joan, was a daughter of King John of England. The princes also presided over a flourishing of ecclesiastical architecture represented by Penmon Priory on Anglesey and Cymer Abbey near Dolgellau. The prosperity that they and their subjects enjoyed shaped the economic landscape of North Wales, as described in *Historia Gruffudd ap Cynan*, who ruled Gwynedd in the early 12th century:

"From then onwards, all kinds of good things became more abundant in Gwynedd, and the citizens began to build churches in every region of the kingdom, and to sow and plant trees, create orchards and gardens, and surround them with fences and ditches, and erect buildings, and to eat the fruits of the earth in the fashion of the Romans. And Gruffudd also built large churches for himself in the chief courts, and he built and maintained his courts with feasts constantly and honourably."

Considerable importance has been placed on making sure that the interpretation was comprehensive and based on accurate information. The project team, with extensive experience in tourism, archaeology, museums and interpretation, was assisted and advised by a small team of experts. Their enthusiastic

knowledge was frustrated at times by word limits on panels, as well as our recognition that potential audiences were extremely varied in interests and needs, and that most of the visitors to the hub exhibitions – mostly in Tourist Information Centres – would not be from Wales: Welsh history and the Welsh language would be very foreign to them.

One of the greatest challenges has been getting the approach right in communicating the fascinating and complex story of the princes without putting visitors off with an overload of dates and events associated, for many visitors, with unpronounceable names. We hope we have achieved a happy balance. Even simple issues such as "should 'princes of Gwynedd' be spelled with a small or a capital 'p'?" can occasion interminable debate. We found ourselves weighing up different approaches to archaeological illustration, and even discussed the status of illegitimate offspring in the Middle Ages and whether it mattered that Llywelyn the Great's wife Joan was an illegitimate daughter of King John. With hindsight there are a few things we would do differently; we would have central content generation for all the outputs, and would employ a copy writer and copy editor to produce and oversee all of the interpretation.

We are especially pleased with the itineraries we devised, which are in the guidebook as well as being downloadable from the website. Ranging from simple walks to a multi-day cycle challenge, 'The Llywelyn the Great Tour', they also include a grand and green three-day journey by rail, taking in nine key sites associated with

the princes through North Wales. Our main hub at Conwy does a wonderful job of setting the scene and, as the first hub to be completed, set the tone and style for all the other interpretive outputs of the project. Another achievement is the vastly improved access to Dinas Emrys, arguably the most magical and mysterious of all the sites associated with the princes of Gwynedd. At the National Trust property Craflwyn, tonnes of stone have been crafted into beautiful paths along the network of routes leading to Dinas Emrys. And, at the Beddgelert hub nearby, the information on the 'Lightbox' touch screen kiosk will be available not just in Welsh and English but in Dutch, German and French.

But perhaps the most important legacy of the Princes of Gwynedd project is that it is significantly raising the profile of one of the most important periods in Welsh history. Through the 'follow the story' links, well-designed itineraries, evocative photography and descriptions as well as improved access, the project has created a very real and tempting invitation to visitors – to venture out into the landscape of North Wales and walk in the footsteps of princes.

Find out more at: www.snowdoniaheritage.info

Dr Sarah McCarthy is a freelance heritage consultant and project manager based in North Wales.

Ysgol Beddgelert yn dathlu lansio'r prosiect.
Beddgelert school celebrating the project launch.
© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd

Further funding has been obtained by the consortium and other key stakeholders for the 'Ein Treftadaeth / Our Heritage' project led by Gwynedd Council that will build on the success of the Princes of Gwynedd project.



Nantgwynant, gyda Dinas Emrys mewn môr o niwl.
Nantgwynant, with Dinas Emrys in a sea of mist.
© Sarah McCarthy

Dehongli corffddelw o Gruffydd ap Dafydd Goch yn Eglwys Sant Mihangel, Betws y Coed.

Interpreting the effigy of Gruffydd ap Dafydd Goch at St Michael's Church, Betws y Coed.

© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd



Prif arddangosfa Tywysogion Gwynedd yng Nghanolfan Ymwelwyr Conwy.
The main Princes of Gwynedd exhibition at Conwy Tourist Information Centre.
© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd





Mona Antiqua

Mae prosiect Mona Antiqua ar Ynys Môn wedi darparu cyfle unigryw i becynnu treftadaeth nodedig yr ynys. Cafodd un o elfennau'r prosiect - arddangosfa yng nghanolfan newydd y Deyrnas Gopr yn Amlwch - ei chynnwys ar restr fer gwobrau Treftadaeth y Guardian yn 2012. Fel yr esbonia **Neil Johnstone**, mae diogelu a hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol, gymdeithasol ac amgylcheddol Mynydd Parys a gogledd ddwyrain Ynys Môn i gynulleidfa ehangach wedi bod yn un o'r nodau allweddol.

Teitl ymbarél yw Mona Antiqua ar amrywiaeth o brosiectau treftadaeth wedi'u seilio ar Ynys Môn, ac wedi'u cyflenwi o dan Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cymru gyfan gan Fenter Môn, y corff datblygu gwledig trydydd sector ar Ynys Môn. Cafodd y cynllun, a gostiodd £900,000, ei oruchwyllo gan grŵp llywio o Gyngor Sir Ynys Môn a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Cadw. Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith dehongli yng Nghanolfan y Deyrnas Gopr, gwaith ar Fynydd Parys gerllaw, a gwaith i ddehongli a gwarchod eglwys Santes Dwynwen ar Ynys Llanddwyn, gwefan newydd, taflenni teithiau y gellir eu lawrlwytho, datblygu canolfannau i ymwelwyr a gwaith yng Nghaergybi.

Bu'r gwaith yn canolbwyntio ar un o safleoedd diwydiannol amlycaf yr ynys, sef mwynglawdd copr Mynydd Parys, Amlwch. Mae cloddio am gopr yn Amlwch yn dyddio nôl i'r Oes Efydd. Ar un adeg Ynys Môn oedd prif fan cynhyrchu copr y byd a chafodd yr ardal ei siapio gan y cyfoeth a grëwyd gan y diwydiant. Adeiladwyd y Deyrnas Gopr, canolfan dreftadaeth newydd, ar safle'r hen Finiau Copr ym Mhorth Amlwch, lle câi copr a gloddiwyd ar Fynydd Parys ei storio ar y cei cyn cael ei lwytho ar longau i'w allforio i fannau ledled y byd. Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch a arweiniodd ar y weledigaeth

Mae arddangosfa ddeongliadol a chysgodfa wedi cael eu creu yn y felin wynt ar y copa.

An interpretive exhibition and shelter has been created at the summit windmill.

Tudalen o Ynys Môn: Pont Drwy Amser

Page from Anglesey: A bridge through time

Dehongli person cyntaf gyda Chopr Ladi

First person interpretation with a copper lady

ar gyfer y ganolfan a'r cynnwys deongliadol, a ariannwyd gan gyfuniad o gyllid o Ewrop ac o Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Roedd y merched a weithiai ar Fynydd Parys yn torri'r cerrig a gloddiwyd yn adnabyddus yn hanes Ynys Môn fel y 'Copar Ladis'. Roedden nhw'n gweithio sifftiau deuddeg awr llafurus, ac yn gwisgo het ffelt - het Jim Cro - gyda sgarff wedi'i chlymu o amgylch y pen oddi tani. Mae gwobrau Treftadaeth y Guardian yn chwilio am atyniadau sy'n ysbrydoli ac yn dangos dull arloesol o ymgysylltu â chynulleidfaoedd - ac un nodwedd wreiddiol yn y Deyrnas Gopr yw'r gallu i ddefnyddio cardiau llithro i gael gwybodaeth a chithau'n chwarae cymeriad 'Copar Ladi'. Gallwch ddewis cymeriadau eraill fel mwynwr neu brofwr mwynau, a gweld yr hyn yr oedd gweithio yn y mwynglawdd yn ei olygu i'ch cymeriad chi, oherwydd eu bod yn darparu sylwebaeth ryngweithiol o amgylch yr arddangosfa. Gellir defnyddio'r un tecynnau rhyngweithiol fel paneli sgrin gyffwrdd ar gyfer gemau a chwisiau ac i weld dehongliadau haenog. Mae bwrdd cyffwrdd mawr sy'n defnyddio System Leoli Fyd-eang, yn rhoi gwybodaeth am Fynydd Parys.

Neil Johnstone yw Swyddog Treftadaeth Menter Môn.
e. neil@mentermon.com

Ynys Môn:

Pont Drwy Amser – arbrawf ym maes Treftadaeth Ddigidol Gyfranogol

Agwedd arall ar Mona Antiqua yw mynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr trwy ddarparu gwybodaeth am dreftadaeth yr ynys mewn fformat hygyrch. Gwefan newydd – 'Ynys Môn – Pont Drwy Amser' yw'r gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cyfuno dehongli treftadaeth mewn dull wedi'i seilio ar storïau gyda chroesawyr o blith y gymuned leol, ac elfennau rhannu ffotograffau a fideos a'r cyfryngau cymdeithasol.

Y syniad yw ysgogi twristiaeth a balchder lleol trwy ymgysylltu â defnyddwyr y safle'n lleol ac yn fyd-eang. Mae **Susanne Skubik Intriligator** yn esbonio...

Mae'r we gydgyssylltiedig yn tynnu'r byd ynghyd, gan ein dysgu ni i gydweithio'n fyd-eang, ac yn troi ein hen gysyniadau am awdurdod, cyhoeddi a hyd yn oed 'ffeithiau' ar eu pennau. Heddiw, os yw sefydliadau eisiau denu cynulleidfa newydd neu iau, rhaid iddyn nhw hepgor yr hen ddull o'r brig i lawr er mwyn creu ymgysylltiad rhyngweithiol, perthynol, ar draws platfformau digidol. Ond sut mae gwneud hynny gydag asiantaethau cyhoeddus sy'n gyndyn i gymryd risgiau?

Dechreuwn gyda gwefan. Tair blynedd yn ôl, dechreuais i weithio gyda Neil Johnstone, swyddog treftadaeth Menter Môn. Cytunodd i fod yn bartner sector breifat imi o dan gynllun PhD cyhoeddus/preifat Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; cytunais innau i ganolbwyntio fy ymchwil ym Mhrifysgol Bangor ar greu strategaeth ddigidol i ddenu mwy o ymwelwyr i'r nifer fawr o safleoedd treftadaeth gwasgaredig a llai adnabyddus ar Ynys Môn.

Edrychasom ar ddatblygu apiau ar gyfer pob safle, ond ble dylem ni eu rhoi? Sylweddolusod fod angen inni ddatblygu gwefan yn gyntaf a fyddai'n borth digidol i dreftadaeth yr ynys – lle i gynnig apiau, teithiau cerdded ar fformat MP3, ffotograffau, fideos, PDFs, dolenni ac, yn bwysicaf oll, lleisiau. Lle i greu trafodaeth – dull rhyngweithiol perthynol o ddehongli treftadaeth.



Pobl ifanc o Ynys Môn yn ail-greu hanes wrth y biniau copr

Young people from Anglesey doing a historical re-enactment at the copper bins

Roedd Neil wedi ymrwymo i agor treftadaeth i'r '90% arall' - pobl gyffredin sy'n dod i Ynys Môn ar gyfer y traethau, i gerdded ac at ddibenion chwaraeon, oedd efallai'n gweld hanes yn yr ysgol yn bwnc sych neu astrus. Sut i'w cyrraedd *nhw*? Fel cyn newyddiadurwr ac Americanes, dadleuais o blaid canolbwyntio ar 'gynhesrwydd': storïau am bobl.

Yn gyntaf, ar gyfer pob un o'r deg safle treftadaeth roeddem eisiau eu proffilio yn y lansiad, aethom ati i recriwtio 'croesawydd' lleol : wyneb i wenu o'r dudalen ac i estyn croeso Cymreig. Gan weithio gyda phob croesawydd, aethom ati i grynhoi stori pob safle treftadaeth yn ei dro i'w gnewyllyn mwyaf diddorol. O'r fan honno aethom ati i saernïo'r dehongliad, gyda "bachyn" i ennyn diddordeb ac mewn iaith bob dydd.

At y tudalennau 'Lleoedd' â chroesawyr, ychwanegwyd y tudalennau 'Lleisiau' (nifer o wahanol draethodau blog am fywyd Ynys Môn) a chwe thraethawd hirach o'r enw 'Themâu – Dechreuadau, Rhufeiniad, Seintiau Celtaidd, Teyrnas Gwynedd, Concwest Eingl-Normanaidd, Ynys Môn Ddiwydiannol' – i roi cyd-destun i'r safleoedd, fel yr awgrymir yng nghanllaw Cadw ar ddehongli i Gymru gyfan. Hefyd datblygasom linell amser ryngweithiol sy'n olrhain stori 7,000 o flynyddoedd yr ynys mewn 93 o ddelweddau: <http://www.angleseyheritage.com/timeline/>.

Buom yn gweithio gyda'n datblygwr meddalwedd (Rippleffect) i ychwanegu cynifer o nodweddion rhyngweithiol ag sy'n bosibl. Er enghraifft, ar ein holl dudalennau 'Lleoedd', gall ymwelwyr adael sylwadau a gofyn cwestiynau. Gall ymwelwyr hefyd lanlwytho a rhannu ffotograffau i'r wefan trwy Flickr, a fideos trwy YouTube.

Weithiodd hi? Yr haf diwethaf, cynhaliais astudiaeth ddiduedd, gan ofyn i 100 o bobl ryngweithio â'r wefan a'i chystadleuydd ar y pryd, adran treftadaeth gwefan y cyngor. Roedd y rhai a ddefnyddiodd y wefan newydd arbrofol 20 y cant yn fwy tebygol o ymweld â'r ynys a'i hargymell i'w ffrindiau a'u teuluoedd. Beth ydych chi'n meddwl? Ydych chi'n hoffi'r dull newydd hwn? Ydi'r wefan <http://www.angleseyheritage.com> yn newid eich barn am arlwy treftadaeth Ynys Môn?

Mae Susanne Skubik Intriligator yn ysgolhaig Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth ac yn ymchwilydd mewn Cyfryngau Digidol ym Mhrifysgol Bangor e. intril@yahoo.com



Rhai o wirfoddolwyr y wefan


Some of the website volunteers



Tudalen o Ynys Môn: Pont Drwy Amser
Page from Anglesey: A bridge through time



Mae simnai a gwympodd yn yr 1980au ar Fynydd Parys wedi cael ei hailadeiladu.
A chimney which collapsed in the 1980s on Parys Mountain has been reconstructed.



Mona Antiqua

The Mona Antiqua project on Anglesey has provided a unique opportunity to package the island's distinctive heritage. One of the project elements - an exhibition at the new Copper Kingdom Centre in Amlwch - was shortlisted for the Guardian Heritage awards in 2012. As **Neil Johnstone** explains, preserving and promoting to a wider audience the industrial, social and environmental heritage of Mynydd Parys and north eastern Anglesey has been a key goal.

Mona Antiqua is an umbrella title for a range of heritage projects based on Anglesey, delivered under the pan Wales Heritage Tourism Project by Menter Mon, the Anglesey based third sector rural development body. The £900,000 scheme has been overseen by a steering group of the Isle of Anglesey County Council and representatives from Welsh Government and Cadw. The project encompasses interpretation at the Copper Kingdom Centre, work at nearby Parys Mountain, interpretation and conservation of St Dwynwen's Church on St Dwynwen's Island, a new web site, downloadable tour leaflets (for website, note books and smartphones), development of visitor 'hubs' and work in Holyhead.

One of the island's outstanding heritage sites, the copper mine at Parys Mountain, Amlwch has been the focus for work. Copper mining in Amlwch dates back to the Bronze Age. Anglesey was once the world's leading copper producer and the wealth created by the industry shaped the area. The Copper Kingdom, a new heritage centre, was built on the site of the old Copper Bins at Amlwch Port, where copper mined on Parys Mountain was stored on the quayside before being loaded onto ships for export all over

the world. Menter Mon collaborated with the Amlwch Industrial Heritage Trust on the project, which was funded by a combination of European and Heritage Lottery Funding.

The women who worked at Parys Mountain breaking up the mined rock were renowned in Anglesey's history as the 'Copar Ladis' who worked exhausting twelve hour shifts and wore a felt hat - a 'Jim Crow' - under which a scarf was tied round the head. The Guardian Heritage awards look for inspiring attractions that demonstrate a ground-breaking approach to engaging with audiences - and a novel feature at Copper Kingdom is the ability to access information using swipe cards in the character of a 'Copar Ledi'. You can choose other characters such as a miner or mine assayer, and see what working in the mine meant to your character, as they provide an interactive commentary around the exhibition. The same interactives can be used as touch screen panels for games and quizzes and to access layered interpretation. A large touch table using GPS gives information about Parys Mountain.

Neil Johnstone is Heritage Officer for Menter Môn.
e. neil@mentermon.com

Anglesey:

a Bridge Through Time - an experiment in Participatory Digital Heritage

Another aspect of Mona Antiqua has been to address visitor needs by providing information on the island's heritage in an accessible format. A new web site - 'Anglesey: A Bridge Through Time' is the first of its kind in the UK. It integrates a story-based approach to heritage interpretation with hosting by local community members, photo and video-sharing and social media elements. The idea is to stimulate tourism and local pride by engaging with users of the site both locally and globally. **Susanne Skubik Intriligator** explains...

The interconnected web is drawing the world together, teaching us to collaborate globally, and turning upside-down our old concepts about authority, publishing, and even 'facts'. Today, if institutions want to draw in new or younger audiences, they must let go the old top-down approach, in order to create interactive, relational engagement, across digital platforms. But with risk-averse public agencies, how do you do that?

Let's start with a website. Three years ago, I began working with Neil Johnstone, heritage officer at Menter Môn. He agreed to serve as my private sector partner in the EU-funded, public/private KESS PhD scheme; I agreed to focus my research at Bangor University on creating a digital strategy to draw more footfall to Anglesey's many, scattered, lesser-known heritage sites.

We looked at developing apps for each site, but where to put them? We realised that we needed first to develop a website that could serve as a digital gateway for the island's heritage - a place to offer apps, walking tours on MP3, photos, videos, PDFs, links, and most important, voices. A place to create a discussion - an interactive relational approach to heritage interpretation.

Neil was committed to opening heritage to 'the other 90%' -

Sgrin gyffwrdd yn y Deyrnas Gopr
Touchscreen at Copper Kingdom



regular folks who come to Anglesey for beaches, walking, and sport, who perhaps found history in school dry or remote. How to reach them? As a former journalist and an American, I argued for a focus on 'warmth': stories about people.

First, for each of the ten heritage sites we wanted to profile at launch, we recruited a local 'host': a smiling face to grace the page and provide a Welsh welcome. Working with each host, we honed the story of each heritage site down to its most interesting nugget. We crafted the interpretation from there, with an intriguing "lead" and in everyday language.

To the hosted 'Places' pages, we added 'Voices' (several different blog essays about Anglesey life), and six longer essays called 'Themes - Origins, Roman Invasion, Saints, Kingdom of Gwynedd, Anglo-Norman Conquest, Industrial Anglesey' - to contextualise the sites, as suggested by Cadw's pan-Wales interpretation guidelines. We also developed an interactive timeline that charts the island's 7,000 year story in 93 images: <http://www.angleseyheritage.com/timeline/>.

We worked with our software developer (Rippleffect) to add in as many interactive features as possible. For example, on all our 'Places' pages, guests can leave comments and ask questions. Guests can also upload and share photos to the website, via Flickr, and videos via YouTube.

Did it work? Last summer I ran an impartial study, asking 100 participants to interact with the website and its then-competitor, the heritage section of the council website. Visitors to the new, experimental website proved 20 percent more likely to visit the island and recommend it to their friends and family. What do you think? Do you like the new approach? Does this website <http://www.angleseyheritage.com> change your opinion of Anglesey's heritage offer?

Susanne Skubik Intriligator is KESS Scholar and PhD researcher in Digital Media at Bangor University
e. intril@yahoo.com

Dehongli

Prosiect strategol yw Cymunedau a Natur (CAN) sy'n cael ei arwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Drwy weithio gyda phartneriaid allanol i wella cyfleusterau i ymwelwyr a mynediad i gefn gwlad, nod y prosiect yw cynyddu budd economaidd atyniadau sy'n gysylltiedig â threftadaeth naturiol, fel yr eglura **Charlotte Barnet**.

Y Tynnu Mawr ar Gors Dyfi ar ôl i apêl am help i osod 1000 m o gebl ffibr optig ar draws y gors dynnu 100 o bobl draw. (hawlfraint YNM)

The Big Pull at Cors Dyfi after an appeal for help to lay 1000 m of fibre-optic cable across a bog brought in 100 people. (copyright MWT)



pedair ffordd wahanol

Wrth i CAN dynnu tua'i derfyn, mae'r effaith y mae dros 30 o brosiectau wedi'i chael wedi bod yn anhygoel. Mae gan lawer o'n partneriaid brofiad o waith dehongli ac maent wedi darparu popeth o fyrdau dehongli traddodiadol a gwaith celf i brofiadau ymarferol a phrofiadau rhyngweithiol wedi'u seilio ar y we. Mae'r pedair astudiaeth achos hyn yn dangos mor amrywiol fu'r dulliau dehongli, gan ysbrydoli a thanio dychymyg ymwelwyr.

Cynllun Gwenyn Mêl Tŷ Hyll

Mae Cymdeithas Eryri wedi bod wrthi'n ddiwyd yn Nhŷ Hyll ger Betws y Coed. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys adnewyddu'r tŷ unnos gan greu caff i a chanolfan ddehongli, a datblygu gardd goetir sydd wedi cael ei phlannu mewn ffordd sy'n denu pryfed peillio. Mae'r ystafell ddehongli yn edrych yn fanwl ar wenyn mêl, pam mae eu hangen arnom, beth sy'n anhygoel amdanynt, a sut gallwn ni eu helpu i oroesi.

Mae Tŷ Hyll yn fach, ond mae'r ystafell ddehongli fel y Tardis; mae'n fychan iawn ar y tu allan ond yn eang a syml eu arddull y tu mewn. Wrth ichi gyrraedd gris uchaf y grisiau, mae synhwyrdd symudiad yn deall eich bod yno ac yn cychwyn ffilm fer a wnaed gan Geoff Gartside o Ibex Films. Mae'r croeso hwn yn eich denu i mewn i'r ystafell, lle'r ydych wedi'ch amgylchynu gan wenyn – dilynwch y ddawns siglo ar y llawr, edrychwch drwy'r chwyddwydrau i mewn i fyd arall, a dysgwch am fel y bu gwenyn yn rhan o'n diwylliant am filenia.

Ger drws y ffyrnt mae panel dehongli,

wedi'i beintio gan Philip Snow, yn eich temtio i'r ardd goetir lle mae gwenyn a phryfed peillio eraill yn cael eu denu gan blannu sensitif a hardd. Un o ogoniannau Tŷ Hyll yw ei fod yn annog ymwelwyr i symud o'r theori yn yr ystafell ddehongli i weld hynny ar waith yn yr ardd goetir.

Prosiect Gweilch y Ddyfi

Mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn wedi bod yn lwcus iawn i ddenu pâr o weilch sy'n bridio i Gors Dyfi heb fod ymhell o Fachynlleth. Mae'r prosiect bach hwn, sydd wedi'i seilio yn y gymuned, yn creu llawer mwy o argraff nag y byddid yn ei ddisgwyl o ystyried ei faint oherwydd y dehongli arloesol, mewn amser real, y mae'n ei ddarparu ar-lein.

Ar y warchodfa mae camerâu manylder uwch (HD) a ffrwd sain yn rhoi cyfle i gael golwg agos iawn ar fywydau'r gweilch ar y llwyfan nythu a'r cyffiniau. Roedd y we yn ffordd ddelfrydol o ehangu mynediad at y profiad hwn ac o gysylltu ag ymwelwyr real a rhithymwelwyr gydol y flwyddyn. Drwy wefan y prosiect, Facebook a Twitter gall ymwelwyr weld beth sy'n digwydd ar y warchodfa o ddydd i ddydd. Yn bwysicach, gallant gysylltu'n uniongyrchol â'r dehongli, sy'n newid yn barhaus, a chyfrannu ato, a gallant hefyd ryngweithio â'i gilydd.

Er mai'r gwalch eiconig sy'n denu sylw i ddechrau, oherwydd y dehongli mewn amser real mae'r prosiect wedi ehangu erbyn hyn i gynnwys bywyd gwyllt arall: gwyfynod, adar, ymlusgiaid, mamaliaid. Ffilmiwyd aderyn y bwn yn ddiweddar – roedd hynny mor gyffrous! Mae hefyd wedi caniatáu i'r prosiect roi ymwelwyr



Ymwelwyr yn edrych ar y deunyddiau dehongli yng Nghwm Idwal (hawlfraint CNC)

Visitors exploring the interpretation at Cwm Idwal (copyright NRW)



Lloches a cherflunwaith wedi'u gwneud â llaw mewn llannerch goedog (hawlfraint CNC)

A hand crafted shelter and natural sculpture in a woodland glade (copyright NRW)

mewn cysylltiad â gweithgareddau cadwraeth dramor, yn enwedig yng ngorllewin Affrica lle mae gweilch Cymru yn gaeafu. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i ymwelwyr ar gylch bywyd cyfan y gweilch ac ar ymdrechion cadwraeth rhyngwladol, gan wneud inni sylweddoli fel mae'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud yma yng Nghymru yn cael effaith yn fyd-eang.

Egin

Sefydlwyd prosiect Egin gan Tir Coed i roi sgiliau gwaith coetir i bobl ifanc ac mae eu gwaith wedi cynhyrchu gwaith celf ymarferol, eithriadol o gain. Dychmygwch gerdded drwy eich coetir lleol a dod ar draws gorsedd tylwyth teg, pont wedi'i cherfio â llaw, neu ddarn dramatig o




gerfluniaeth naturiol. Er nad yw'r pethau hyn yn ddehongli traddodiadol efallai ac nad ydynt yn cynnig gwybodaeth ffeithiol, maen nhw'n sicrh yn ysgogi ymateb. Maen nhw'n cyfoethogi ac yn ychwanegu dyfnder i'r profiad o grwydro'r coetiroedd hyn, ac wrth wneud hynny maent yn helpu i feithrin yr ymdeimlad anniriaethol a gwerthfawr hwnnw o le.

Cwm Idwal

Mae'r ganolfan yn Ogwen yn borth i Eryri ac fel rhan o bartneriaeth rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru, caiff ymwelwyr eu croesawu bellach gan ganolfan newydd a hardd i ryfeddu. Mae'r ystafell ddehongli lân, syml, wedi'i seilio ar ddaear y cwm ac fe'i hysbrydolwyd gan daith Darwin drwy Eryri yn 1831. Mae yma ffilm ddwyieithog sy'n llifo dros wal frithweithiog wedi'i gorchuddio â charreg a model o'r cwm a'r copaon o'i gwmpas y gallwch ei deimlo – mae plant wrth eu bodd ag ef. Y tu allan mae samplau o gerrig wedi'u llathru wedi'u mewnosod mewn

Dail ar lawr yn gyfnaf i fainc gain wedi'i gwneud â llaw (hawlfraint Tir Coed)

An elegant handmade bench is set off by fallen leaves (copyright Tir Coed)



Gwalch y pysgod yn hedfan dros Gors Dyfi (hawlfraint YNM)

Osprey in flight over Cors Dyfi (copyright MWT)

wal isel, i ddarlunio siwrnai ddaearogol Darwin o Gwm Idwal i Bwllheli, ynghyd â meinciau sydd wedi'u haddurno â chyfuchliniau'r mynyddoedd o amgylch. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn creu lle sy'n ysbrydoli gan estyn croeso i'r 300,000 o ymwelwyr sy'n dod i Gwm Idwal bob blwyddyn.

Gwerthuso'r buddion

Mae budd economaidd yr holl atyniadau treftadaeth naturiol a noddir gan CAN yn cael ei werthuso gan Ysgol Fusnes Caerdydd. Roedd adroddiad interim yn gynnar yn 2013 yn dangos bod 'gwerth ychwanegol crynswth' (mesur o'r cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) ar lefel ranbarthol) tri safle a rolygwyd oddeutu £12 miliwn y flwyddyn. Ers hynny rydym wedi bod yn cynnal arolygon ymwelwyr ar bum safle arall; mae hon wedi bod yn dasg enfawr, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan staff CAN a gwirfoddolwyr. Hefyd, mae holl bartneriaid CAN yn cyfrif ymwelwyr. Caiff y ffigurau hyn eu defnyddio gan Ysgol Fusnes Caerdydd i werthuso 60 safle CAN drwyddynt draw, yn cynnwys y 'gwerth ychwanegol crynswth' terfynol a'r swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol. Daw'r adroddiad terfynol i law yn 2014. Fe'n calonogwyd gan y canlyniadau cynnar ac rydym yn hyderus fod buddsoddi mewn treftadaeth naturiol yn dod â buddion pendant i bobl Cymru.

Charlotte Barnet yw Swyddog Prosiect Cynorthwyol CAN yn Cyfoeth Naturiol Cymru. ff. 01248 385 422 e. Charlotte.Barnet@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Golwg ryfeddol o fanwl o lygaid oren anarferol Monty, gwalch y pysgod, o'r camerâu HD (hawlfraint YNM)

Amazing detail from the HD cameras of Monty the osprey's unusual orange eyes (copyright MWT)

Four ways with interpretation

Communities and Nature (CAN) is a strategic project led by Natural Resources Wales and funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government. Working with external partners to improve visitor facilities and access to the countryside the project aims to improve the economic benefits of natural heritage attractions, as **Charlotte Barnett** explains.

As CAN comes into its closing stages, the impact made by over 30 projects has been amazing. Many of our partners have experience of providing interpretation and they have delivered everything from traditional interpretation boards and artwork to hands-on and interactive web-based experiences. These four case studies show how varied the approach to interpretation has been as it inspires and captures the imagination of visitors.

Ty Hyll Honey Bee Initiative

The Snowdonia Society has achieved a real buzz at Ty Hyll near Betws y Coed. This project included the renovation of the *ty unnos* or *one night house* into a cafe and interpretation centre, and the development of a woodland garden planted for pollinators. The interpretation room explores honey bees, why we need them, what's amazing about them, and how we can help them survive.

Ty Hyll is small, but the interpretation room is like the Tardis; it is tiny on the outside but spacious and uncluttered inside. As you reach the top step of the staircase a motion detector senses your arrival and starts a short film made by Geoff Gartside of Ibex Films. This welcome draws you into the room where bees are all around you - follow the waggle dance on the floor, look through magnifying glasses into another world, and learn about how bees have been part of our culture for millennia.

An interpretation panel near the front door, painted by Philip Snow, tempts you into the woodland garden where bees and other pollinators are attracted by sensitive and beautiful planting. One of the joys of Ty Hyll is that it encourages visitors to move from the theory in the interpretation room to see the practice in the woodland garden.



Trafod gwenyn yn Nhŷ Hyll (hawlfraint CNC)
Talking about bees at Ty Hyll (copyright NRW)



Yr ardd goetir yn Nhŷ Hyll (hawlfraint CNC)
The woodland garden at Ty Hyll (copyright NRW)

Dyfi Osprey Project

Montgomeryshire Wildlife Trust has been very lucky to attract a pair of breeding ospreys to Cors Dyfi just outside Machynlleth. This small, community based project, is punching above its weight because of the innovative, real-time interpretation that it delivers online.

At the reserve HD cameras and an audio feed offer a very intimate experience of the lives of the ospreys on and around their nest platform. The web offered an ideal way to broaden the access to this experience and to engage real and virtual visitors over the whole year. Through the project website, Facebook and Twitter visitors can keep up to date with activity at the reserve day to day. More importantly, they can directly engage with and contribute to the changing interpretation, including interacting with each other.

While the iconic osprey initially captures interest, the real-time interpretation has broadened the impact of the project to include other wildlife: moths, birds, reptiles, mammals. Recent footage of a bittern was particularly exciting! It has also allowed the project to link visitors with conservation activities overseas, especially in West Africa where the Welsh ospreys overwinter. This has given visitors an insight into the whole life-cycle of ospreys and to international conservation efforts, which brings home the realities of how what we do in Wales impacts globally.

Egin

Tir Coed's Egin project was set up to provide woodland skills to young people and their work has resulted in some exquisite, practical art. Imagine walking through your local woodland and coming across an elfin throne, a hand carved bridge, or a dramatic piece of natural sculpture. While these things are not traditional interpretation and offer no factual information, they definitely provoke a reaction. They enhance and add depth to the experience of exploring these woodlands, and in doing so they help to build that intangible and valuable sense of place.

Cwm Idwal

The centre at Ogwen is a gateway into Snowdonia and as part of a partnership between Snowdonia National Park, The National Trust and Natural Resources Wales, visitors are now welcomed by a new and rather beautiful centre. The simple, clean interpretation room is based around the geology of the cwm and has been inspired by Darwin's 1831 journey through Snowdonia. There is a bilingual film that flows over a tessellated stone clad wall and a tactile model of the cwm and the surrounding peaks - which is a hit with children. Outside there is a low wall

Edrych i fyny'r llwybr i Gwm Idwal (hawlfraint CNC)
Looking up the path to Cwm Idwal (copyright NRW)

inlaid with polished stone samples that illustrates Darwin's geological journey from Cwm Idwal to Pwllheli, and benches decorated with the contour lines of the surrounding mountains. Together, these elements create an inspiring space welcoming the 300,000 visitors that come to Cwm Idwal every year.

Evaluating the benefits

The economic benefit of all the natural heritage attractions supported by CAN is being evaluated by Cardiff Business School. An interim report in early 2013 indicates that the 'gross value added' (a regional level measure of GDP) of three sites surveyed is approximately £12 million annually. Since then we have been carrying out visitor surveys at a further five sites; this has been a giant task, undertaken by CAN staff and volunteers. In addition all CAN's partners carry out visitor counts. These will be used by Cardiff Business School to evaluate CAN's 60 sites as a whole, including the final 'gross value added' and the direct and indirect jobs. We will have the final report in 2014. We are encouraged by the early results and are confident that investing in natural heritage brings tangible benefits to the people of Wales.

Charlotte Barnett is CAN Assistant Project Officer at Natural Resources Wales.
t. 01248 385 422
e. Charlotte.Barnet@naturalresourceswales.gov.uk



Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Ailddehongli'r Cymoedd?

Mae parciau tirwedd rhanbarthol yn cael eu hystyried yn hanfodol i ansawdd bywyd a llwyddiant economaidd rhai o ardaloedd mwyaf llewyrchus Ewrop, megis Dinas-ranbarth Stuttgart a'r Ruhr yn yr Almaen. Yn bwysig, nid Parciau Cenedlaethol gyda rheoliadau cynllunio llym yw parciau rhanbarthol ond, yn hytrach, ardaloedd daearyddol diffiniedig lle gall cynllunio a buddsoddi wedi'u cyd-drefnu yn asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol ardal wireddu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol. Yma mae **David Llewellyn** yn edrych ar Barc Rhanbarthol yng Nghymru lle mae prosiectau cyfalaf a dehongli wedi ategu'i gilydd yn dda.

Cyn belled yn ôl ag 1947 awgrym-odd Cynllun Amlinellol De Cymru sefydlu pedwar parc rhanbarthol yn y Cymoedd, ond ni chawsant byth eu gwredu. Deilliodd cysyniad Parc Rhanbarthol presennol y Cymoedd o bartneriaeth 'Glasu'r Cymoedd' a sefydlwyd yn yr 1990au hwyr, ac yn 2005 comisiynwyd astudiaeth i greu fframwaith, gan ymgynghori â mwy na deugain o gyrff a dros 500 o wahanol randdeiliaid.

O ganlyniad, dyfeisiwyd cynllun gweithredu a dechreuwyd rhoi cysyniad Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar waith ym mis Ebrill 2009 drwy brosiect ERDF gwerth tua £22 miliwn. Câi ei arwain gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â mwy na 40 o bartneriaid, yn cynnwys Awdurdodau Lleol. Ers hynny, mae dros 40 o brosiectau seilwaith a nifer tebyg o ddigwyddiadau a phrosiectau dehongli wedi cael eu cwblhau. Gallwch ddarllen am dri phrosiect penodol yn y tudalennau canlynol – rhaglen Cenhadon Twristiaeth Gymunedol sydd wedi ennill gwobrau, datblygu Rhwydwaith Beicio'r Chymoedd ar y cyd â Sustrans, ac ymgyrch bosteri Darganfod y Cymoedd. Yma rydym yn edrych ar bedwar prosiect cyfalaf o fewn y Parc y mae dehongli yn elfen annatod ohonynt.

Llwybr Ebbw Fach

Mae Llwybr Ebbw Fach yn un o fuddsoddiadau cyfalaf mawr Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Yma bu'r awdurdod lleol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i greu llwybr newydd 10 km sy'n cysylltu pedwar ar ddeg o fannau gwyrdd cymunedol, safleoedd treftadaeth a gwarchodfeydd natur lleol. Mewn gwahanol fannau mae polion dehongli dau fetr o uchder yn darparu gwybodaeth sain am hanes diwydiannol a naturiol y cwm, gan ddefnyddio egni solar i

ddarparu pŵer. Mae disgiau pres wedi'u hysgythru wedi'u hymgorffori yn y polion hefyd fel bod modd casglu rhwbiadau a chyfleu gwybodaeth yn weledol.

Un canolbwynt o bwys ar Llwybr Ebbw Fach yw Gwarcheidwad, cerflun trawiadol 20-metr mewn dur hindreuliedig, a grëwyd gan Sebastian Boyesen. Fe'i hariannwyd drwy raglen Blaenau'r Cymoedd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, a ariannodd yr agoriad swyddogol ym Mehefin 2010 hefyd – daeth dros 7,000 o bobl i'r agoriad. Noddodd y Parc Rhanbarthol y gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Dreftadaeth yn Nhŷ Ebbw Fach gerllaw hefyd, lle gall ymwelwyr ddarganfod mwy am hanes yr ardal yn cynnwys trychineb Iofaol Six Bells yn 1960, y mae'r Gwarcheidwad yn ei choffáu. Wrth eistedd yn y 'Gadair Stori' gall ymwelwyr wrando ar hanesion gan bobl leol am fywyd y gymuned oddeutu adeg y trychineb.

Llwybr Rheilffordd Dyffryn Llynfi Porthcawl

Mae polion sain dwyieithog yn rhedeg ar egni solar wedi cael eu defnyddio hefyd ar hyd llwybr newydd Rheilffordd Dyffryn Llynfi Porthcawl, yn cynnwys un ger y Ganolfan Ymwelwyr sydd wedi cael ei hadnewyddu ar Warchodfa Natur Parc Slip. Mae'r llwybr yn olrhain llinell y rheilffordd cerbydau ceffyl 17 milltir a agorwyd yn 1828 i gysylltu'r gweithfeydd haearn yn Nyffryn Llynfi, yn ogystal â Phwll Glo Dyffryn, â harbwr Porthcawl. Yma mae'r polion hefyd yn cynnwys codau QR sy'n cysylltu dyfeisiau symudol â fideos YouTube sy'n rhoi mwy o hanes y llwybr.

Gweithredu ym Merthyr Tudful

Mae'r cyferbyniad a'r berthynas ddiddorol rhwng natur a gweithgarwch dyn yn greiddiol i atyniad y Cymoedd. Cwblhawyd y gwaith o adfer yr hen dramffordd a'r ddyfrffos hanesyddol, a oedd yn cyflenwi dŵr i waith haearn enwog Cyfarthfa ym Merthyr Tudful, ym mis Hydref 2013. Crëwyd llwybr cerdded newydd fel rhan

o lwybr treftadaeth rhwng Parc Cyfarthfa a Gwarchodfa Natur Taf Fechan ac ym mhen y castell o'r llwybr caiff ymwelwyr eu croesawu gan fynedfa symbolaidd grand ynghyd â thram replica a hysbysfyrddau.

Parc Gwledig Cwm Dâr

Parc Gwledig Cwm Dâr oedd y cyntaf ym Mhrydain i gael ei ddatblygu ar hen dir diwydiannol wedi'i adfer. Yn 2013 roedd yn un o ddeuddeg Parc Gwledig yn y Cymoedd i ennill Baner Werdd o ganlyniad i gais cyfunol arloesol a ddatblygwyd drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae mynediad newydd o Barc Gwledig Cwm Dâr i ganol tref Aberdâr wedi galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gynhyrchu llwybr treftadaeth sain newydd, gan gyfoethogi profiad ymwelwyr a dod â threftadaeth gyfoethog Aberdâr yn fyw – cewch wybod lle cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf, lle dangosodd un o arloeswyr y sinema ei ffilmiau gyntaf, a pham roedd y dref yn cael ei hadnabod ar un adeg fel 'Athen Cymru'.

Gwerthuso llwyddiant

Mae partneriaeth Bwrdd Rhanbarthol y Cymoedd wrthi'n gwerthuso effaith ei buddsoddiadau a'i chynlluniau ar hyn o bryd. Mae cael ymwelwyr a chymunedau lleol i werthfawrogi a mwynhau asedau'r rhanbarth yn hollbwysig ac mae dehongli arloesol, o ansawdd uchel, wedi bod yn dyngedfennol. O'i gymharu â rhai o ddatganiadau artistig mawreddog a beiddgar Parc Tirwedd Emscher yn yr Almaen, mae'r dull a fabwysiadwyd wedi bod braidd yn geidwadol ond, serch hynny, er ei fod ryw drigain mlynedd yn hwyrach nag a ragwelwyd i ddechrau, mae Parc Rhanbarthol yn y Cymoedd wedi dechrau gwneud yn fawr o botensial yr amgylchedd gwych hwn a'i dreftadaeth gyfoethog.

David Llewellyn oedd Cydlynnydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd 2009-2014 e. david@blaengad.co.uk



Parc Cyfarthfa
Cyfarthfa Park



Warchodfa Natur Parc Slip
Parc Slip Nature Reserve

Regional landscape parks are considered to be vital to the quality of life and economic success of some of Europe's most thriving areas, such as the Stuttgart City Region and the Ruhr in Germany. Importantly, regional parks are not National Parks with strict planning regulations, but, rather, are defined geographical areas where coordinated planning and investment in an area's natural and cultural heritage assets can bring about significant economic, environmental, and social benefits. **David Llewellyn** looks at a Welsh Regional Park where capital and interpretation projects have complemented each other well.

'Gwarcheidwad' Sebastian Boysen (Croeso Cymru)

Sebastian Boysen's
'Guardian' (Visit Wales)

Valleys Regional Park: Reinterpreting the Valleys?

As far back as 1947 four regional parks were proposed for the Valleys in the South Wales Outline Plan, but they never came to fruition. The concept of the present Valleys Regional Park (VRP) emerged from the 'Greening the Valleys' partnership established in the late 1990s, which in 2005, commissioned a study to create a framework, involving consultation with over forty organisations and more than 500 different stakeholders.

As a result, an action plan was devised and implementation of the VRP concept started in April 2009 through the cornerstone ERDF convergence VRP project

worth around £22 million. It was led by Welsh Government in conjunction with more than 40 partners, including the Local Authorities. Since then, more than 40 infrastructure projects and a similar number of events and interpretation projects have been completed. You can read about three specific projects in the pages that follow - the award-winning Community Tourism Ambassador programme, the development of the Valleys Cycle Network with Sustrans, and the Discover the Valleys' poster campaign. Here we look at four VRP capital projects which have interpretation as an integral element.

Ebbw Fach Trail


One of the major capital investments for VRP has been the Ebbw Fach Trail where the local authority worked together with community groups to create a new 10 km trail linking fourteen community green spaces, heritage sites and local nature reserves. At various points two-metre high interpretation posts provide audio information on the valley's industrial and natural history, powered by solar energy. The posts also have inbuilt engraved brass discs to collect rubbings and visual interpretation.

A major focus of the Ebbw Fach Trail is Guardian, an imposing 20-metre memorial statue of a miner in cor-ten or weathered steel, created by Sebastian Boyesen. It was funded through the Heads of the Valleys programme and VRP, which also funded the official opening event in June 2010, attended by over 7,000 people. VRP also supported the development of the Heritage Centre at nearby Ty Ebbw Fach, where visitors can discover more about the area's history including the 1960 Six Bells mining disaster which Guardian commemorates. Sitting in the 'Story Chair', visitors can listen to stories from local people about community life around the time of the disaster.

Dyffryn Llynfi Porthcawl Railway Trail

Solar-powered bilingual audio posts have also been employed along the new Dyffryn Llynfi Porthcawl Railway trail, including one at the newly revamped Visitor Centre at Parc Slip Nature Reserve. The trail traces the route of the 17-mile horse-drawn line opened in 1828 to connect the iron works in the Llynfi Valley, as well as the Dyffryn Colliery with Porthcawl harbour. Here

Cynllun poster
Sarah Abbott
Sarah Abbott's
poster design



the posts also have QR codes that link mobile devices to YouTube videos detailing more about the trail's history.

Action in Merthyr Tydfil

The fascinating contrast and relationship between nature and man's activities are at the heart of the attraction of the Valleys. Restoration of the old tramway and the historic leat, which supplied water to the famous Cyfarthfa ironworks at Merthyr Tydfil was finished in October 2013. A new walkway was created as part of a heritage trail between Cyfarthfa Park and the Taf Fechan Nature Reserve and visitors at the castle end are greeted by an impressive symbolic gateway entrance together with a replica tram and visitor boards.

Dare Valley Country Park

Dare Valley Country Park was the first in Britain to be developed on reclaimed former industrial land. In 2013, it was one of twelve Valleys' Country Parks to be awarded a Green Flag as a result of a novel collective submission approach developed through VRP. Newly-created access from Dare Valley Country Park to Aberdare town centre has enabled Rhondda Cynon

Taff County Borough Council to produce a new audio heritage trail, greatly enhancing the visitor experience and bringing to life Aberdare's rich heritage including where the first National Eisteddfod took place, where a pioneer of cinema first showed his films, and why the town was once known as the 'Athens of Wales'.

Evaluating success

The Valleys Regional Park partnership is currently evaluating the impact of its investments and initiatives. Getting visitors and local communities to appreciate and enjoy the region's assets is vital and high-quality, innovative interpretation has been crucial. Compared to some of the bold grandiose artistic statements of the Emscher Landscape Park in Germany, the approach has been somewhat conservative, but nevertheless, albeit some sixty-years later than first envisaged, a Regional Park in the Valleys has really started to maximise the potential of this wonderful environment and rich heritage.

David Llewellyn was Valleys Regional Park Coordinator 2009-2014.
e. david@blaengad.co.uk

Tredegar drwy fy llygaid i

dod â storïau i olau dydd

Tredegar gan Becky Adams
Tredegar by Becky Adams

Yng nghanol yr 20fed ganrif cafodd artistiaid a oedd yn dechrau ennill eu plwyf fel Paul Nash a Graham Sutherland eu comisiynu gan Shell i greu posterï eiconig yn darlunio a hyrwyddo tirweddau Prydain. Gyda newidiadau enfawr i dirwedd y Cymoedd ers yr 1950au, cym-erodd Parc Rhanbarthol y Cymoedd ysbrydoliaeth oddi wrth ymgyrch wreiddiol Shell ac yn 2013 cynhaliodd gystadleuaeth i gomisiynu deg artist newydd. Byddai'r enillwyr yn archwilio a phortreadu tirwedd heddiw gan greu gweithiau eiconig ar gyfer ymgyrch bosteri Darganfod y Cymoedd. Dyma un o'r enillwyr, **Becky Adams**, yn dangos Tredegar inni drwy ei llygaid hi.



The Big Cheese, Caerphilly
by Robert Macdonald
Y Caws Mawr, Caerffili
gan Robert Macdonald

Byddwn yn dychmygu bod unrhyw un sy'n meddwl am dref Tredegar yn meddwl ar unwaith am y cloc – mae'n sefyll yng nghanol Tredegar fel tirnod trawiadol. Roedd rhaid imi ei ddarlunio!

Os edrychwch chi'n ofalus ar fy narn, mae trysorau llawer llai i'w gweld ynddo hefyd. Mae'r motif deilen yn y tu blaen yn atgyn-hyrchu'r patrymau a geir ar glwydi Tŷ Bedwellte. Yn y cymylau, fe welwch gonfetti, wedi'i gasglu o safle Tŷ Bedwellte ar ôl priodas. Mae Nye Bevan yn un o'r ffenestri, ynghyd â darn bach o gerdyn Cymdeithas Cymorth Meddygol. Mae'r llenni ar ffenestri llawr uchaf yr un adeilad wedi'u gwneud o blastrau meddygol, cyfeiriad at Gymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar, sef y model y seiliwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol arno. Dywedodd Aneurin Bevan, a lansiodd y Gwasanaeth Iechyd yn 1948, "Y cyfan rydw i'n ei wneud yw ymestyn i holl boblogaeth Prydain y manteision yr ydym wedi'u cael yn Nhredeggar am genhedlaeth a mwy. Rydym yn mynd i'ch 'Tredegareiddio' chi". Brodiais hyn ar y dyffryn yn fy mhoster cyfryngau cymysg sy'n cynnwys gwaith pytho, brodwaith collage ac appliqué yn ogystal â defnyddiau o siop elusen yn Nhredeggar.

Mae peth o'r ffabrig a ddefnyddiwyd i greu'r dyffryn wedi'i wneud o frethyn gwyrdd bwrdd snwcer. Ganwyd Ray Reardon, MBE, yn Nhredeggar yn 1932. Roedd ar frig y gamp yn yr 1970au, ac enillodd chwe Phencampwriaeth Byd. Mark Williams, pencampwr snwcer y byd ddwywaith, yw perchennog Neuadd Snwcer Tredegar erbyn hyn.

Yn gynnar yn y 19eg ganrif roedd gweithwyr yn cael eu talu nid mewn arian ond â thocynnau nad oedd modd eu cyfnewid ond yn siop y Cwmni neu'r Siop 'Dryc'. Roedd Tredegar yn dref ddiwydiannol bwysig a llwyddais i ddod o hyd i docyn tryc hanner torth, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y gwaith celf. Dod â storïau i olau dydd



ydw i'n ei wneud yn aml yn fy ngwaith. Ysbrydolwyd y cwpan a'r soser yn y tu blaen gan y cwpaneidiau hyfryd o de oedd yn cael eu gweini mewn bore coffi yng Nghapel Saron! Roedd gan lawer o gapeli eu llestri eu hunain.

Cynhaliwyd arddangosfa o'r gwaith celf gwreiddiol a'r posterï a luniwyd wedyn yn Nhŷ Bedwellte yn Nhredeggar ddiwedd 2013. Mae'r posterï'n cael eu defnyddio mewn ymgyrch gyhoeddus ehangach mewn gorsafoedd rheilffordd yn y De a bydd yr arddangosfa'n symud i Gastell Cyfarthfa yn y gwanwyn.

Mae'r artist Becky Adams yn gweithio o Benarth. e. beckymoth@hotmail.com


Sylwch: Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi bod yn aelod blaenllaw o brosiect WECAN, sy'n cael ei noddi drwy raglen Interreg IVB yr Undeb Ewropeaidd, ynghyd â phartneriaid yn hen ranbarthau glofaol Gwlad Belg a gogledd Ffrainc. Cafodd ymgyrch bosteri 'Darganfod y Cymoedd' ei dyfeisio a'i hariannu drwy WECAN.

Tredegar through my eyes

bringing stories to light

In the mid-20th century up-and-coming artists such as Paul Nash and Graham Sutherland were commissioned by Shell to create iconic posters depicting and promoting the landscapes of Britain. With vast changes to the Valleys' landscape since the 1950s, Valleys Regional Park took inspiration from the original Shell campaign and in 2013 held a competition to commission ten new artists. The winners would explore and portray today's landscape, creating iconic works for the Discover the Valleys poster campaign. One of the winners, **Becky Adams**, shows us Tredegar through her eyes.

Blaenafon Ironworks I by Pete Monaghan
Gwaith Haearn Blaenafon I gan Pete Monaghan



DISCOVER THE VALLEYS
CANFYDDWCH Y CYMOEDD

I would imagine that anyone thinking of the town of Tredegar would immediately bring the clock to mind – it stands right at the centre of Tredegar as an impressive landmark. I simply had to depict it!

If you look carefully at my piece, there are some much smaller treasures to be found too. The leaf motif in the foreground is a replica of the patterns found on the gates of Bedwellty House. In the clouds, you will find some confetti, collected from the grounds of Bedwellty House after a wedding. Nye Bevan is in one of the windows, as well as a fragment of a Medical Aid Society card. The curtains in the top floor windows of the same building are made from medical plasters, referencing the Tredegar Medical Aid Society which formed the model for the National Health Service. Aneurin Bevan who launched the Health Service in 1948 said "All I am doing is extending to the entire population of Britain the benefits we had in Tredegar for a generation or more. We are going to 'Tredegarise' you". I embroidered this phrase into the valley in my mixed media poster which incorporates stitch, collage embroidery and applique as well as materials sourced from a charity shop in Tredegar.

Some of the fabric used to create the valley is made from the green baize of a snooker table. Ray Reardon, MBE was born in Tredegar in 1932. He dominated the sport in the 1970s, winning six World Championships. Two-time world snooker champion Mark Williams now owns Tredegar Snooker Hall.

In the early 19th century workers were not paid in money but with tokens or notes that could only be exchanged at the Company or 'Truck' shop. Tredegar was an important industrial town and I managed to find a half loaf token, which is also placed in the artwork. My work is often about bringing stories to light. The cup and saucer in the foreground were inspired by lovely cups of tea served

Blaenrhondda by Alan Young
Blaenrhondda gan Alan Young



at a coffee morning at Saron Chapel! Many chapels had their own crockery.

An exhibition of the original artwork and the resulting posters was held at Bedwellty House in Tredegar at the end of 2013. The posters are being used in a wider public campaign at railway stations in south Wales and the exhibition moves to Cyfarthfa Castle in the spring.

Becky Adams is a Penarth based artist.
e. beckymoth@hotmail.com

Note: Valleys Regional Park has been a major player in the WECAN project, funded through the EU Interreg IVB programme, in conjunction with partners in former coalmining regions of Belgium and northern France. The 'Discover the Valleys' poster campaign was devised and funded through WECAN.

Cyfoethogi'r Profiad o Deithio

Mae Sustrans yn elusen flaenllaw ym maes trafnidiaeth gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. Ei gweledigaeth yw byd lle mae pobl yn dewis teithio mewn ffyrdd sy'n llesol i'w hiechyd nhw ac i'r amgylchedd. Mae'n gweithio ar atebion ymarferol, arloesol i'r sialensiau trafnidiaeth sy'n wynebu pawb ohonom, yn cynnwys prosiectau uchel eu proffil, megis y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Connect2, DIY Streets a Liveable Neighbourhoods, cynlluniau sydd wedi ennill gwobrau.

Ers sefydlu swyddfa Cymru yn 2000, mae Sustrans Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ac awdurdodau lleol i gynyddu'r lefelau cerdded a beicio, drwy sefydlu rhwydwaith o lwybrau o safon uchel. Erbyn hyn mae dros 1,400 o filltiroedd o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru, yn cario 48 miliwn o siwrneiau'r flwyddyn.

Yn 2008 cwblhawyd y Llwybr Celtaidd, gan ddefnyddio arian Amcan Un yr UE i uwchraddio'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol rhwng Abergwaun a Chas-gwent. Gan adeiladu ar y wybodaeth a fagwyd drwy'r gwaith ar y Llwybr Celtaidd, datblygodd Sustran weledigaeth ar gyfer Rhwydwaith Beicio'r Cymoedd. Y nod oedd trawsnewid hen faes glo'r De a chreu 80 milltir o lwybrau cerdded a beicio safonol o fewn dwy filltir i fwy na miliwn o bobl. Cafodd y prosiect ei ariannu gan yr UE mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae

Ryland Jones yn edrych ar sut mae

Sustrans yn defnyddio treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog Cymru i ysgogi mwy o ddefnydd o Rwydwaith Beicio newydd y Cymoedd – 350 milltir o lwybrau sydd wedi'u datblygu yng Nghymoedd y De drwy raglen bartneriaeth wedi'i hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd (UE).

rhwydwaith o hen reilffyrdd, tramffyrdd a lwybrau tynnu a arferai gludo deunyddiau crai'r chwyldro diwydiannol wedi cael ei drawsnewid yn lwybrau cerdded a beicio hardd, sy'n gynhalieth i dwristiaeth yn y Cymoedd.

Mae'r gwaith hwn wedi darparu cyfoeth o gyfleoedd dehongli. Mae Sustrans yn aml yn defnyddio gwaith celf fel arf dehongli. Mae 'Meinciau Portread', prosiect celf gyhoeddus allweddol gan Sustrans sy'n unigryw yn y Deyrnas Unedig, yn dangos tri ffigwr yr un maint â phobl go iawn mewn dur hindreuliedig sy'n darlunio arwyr lleol a ddewiswyd gan bobl yn y gymuned. Maen nhw'n cynnig cyfle gwyh i ymchwilio i galon ac enaid yr ardal lle maent i'w gweld, gan ddehongli'r dreftadaeth a mynd at wraidd ysbryd cymunedol y Cymoedd.

Mae gwaith celf a grëwyd yng Nghwm Llynfi, ar safle hen bwl glo, wedi ei drawsnewid yn ofod celf gyhoeddus diddorol, sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd naturiol, llystyfiant a bywyd gwyllt. Law yn llaw â hynny mae cerddi gan blant ysgol lleol, yn disgrifio ymwneud y gymuned â'r dreftadaeth hanesyddol a naturiol, yn gweithredu fel cyfrwng dehongli ategol.

Cyflogodd prosiect o dan arweiniad y gymuned yng Nghlydach artist lleol i ddefnyddio defnyddiau diwydiannol o'r presennol a'r gorffennol i aiddylunio hen bont. Addurnwyd llawr y bont â glo a gwydr lliw, tra mae'r canllaw yn atgoffa rhywun o'r cymhlethdod o bibellau lliw yn y gwaith Nicel cyfagos.

Mae datblygiad diweddar ar Lwybr y Taf yn defnyddio potensial rhyngweithio geogelcio i ddod â'r llwybr yn fyw i ddefnyddwyr. Nod 'Storiau'r Taf', helfa drysor sain, yw ysbrydoli cynulleidfaoedd i archwilio byd hudol y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Drwy gyfres o hanesion llawn dychmyg, y gwrandewir arnynt dros ffôn symudol, mae ymwelwyr yn darganfod dau gymeriad dychmygol drwy gyfres o dasgau helfa drysor. Mae hyn yn fodd iddynt ryngweithio â'r amgylchedd naturiol o'u cwmpas, y bywyd gwyllt, treftadaeth a gwaith celf, gan gyfoethogi'u gwybodaeth o'r llwybrau a'r cymunedau y maen nhw'n teithio drwyddynt.

Dangosodd Astudiaeth o Efaith Amgylcheddol y Llwybr Celtaidd a Llwybr y Taf yn 2008 fod y llwybrau hyn yn cynhyrchu £75 miliwn i'r economi leol oddi wrth fwy na 2.5 miliwn o ddefnyddwyr y flwyddyn, gan amcangyfrif eu bod yn cynnal 1400 o swyddi. Mae astudiaeth debyg o Rwydwaith Beicio newydd y Cymoedd yn cael ei chynllunio ac mae'r arwyddion cynnar yn dangos lefelau da o ddefnydd lle mae llwybrau wedi cael eu creu neu'u gwella. Ond nid yw seilwaith yn ddigon ar ei ben ei hun. Mae angen atyniadau hefyd ar bobl a ffocws i'w siwrneiau ac mae dehongli da yn elfen allweddol er mwyn cyfoethogi profiadau pobl ar eu taith.

Mae Ryland C. Jones yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Sustrans Cymru.
ff. 029 2065 0602
e. ryland.jones@sustrans.org.uk

Enghraifft o farddoniaeth gan blant ysgol lleol a oedd yn rhan o brosiect Celf Dehongli Llwybr Cymunedol Cwm Llynfi. Mae'r cerrig wedi'u lleoli mewn mannau allweddol, ac maent yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl leol yn ei feddwl am y newidiadau y maent yn eu gweld yn y dirwedd o'u cwmpas.

An example of poetry from local school-children which formed part of the Llynfi Valley Community Route Interpretive Art project. The stones are located at key points, reflecting the thoughts of local people to the changes in the landscape they see around them.



Mae Gwaith Celf Tirwedd Llynfi yn defnyddio'r dirwedd ddiwydiannol sydd wedi'u hadfywio fel cefnlen ac yn cyfeirio at themâu o'r ddaear a'r ecoleg leol. Mae'n gwaith yn drawiadol ac mae'n ganolbwynt i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn yr ardal.

The Llynfi Landscape Artwork uses the backdrop of the regenerated industrial landscape and references themes from local geology and ecology. A striking feature it acts as a focal point on the NCN in the area.

Rhwydwaith Beicio'r Cymoedd
The Valleys Cycle Network



Rob Brydon yn ymweld â'i bortread yng Nghwm Afan, gan atgyfnerthu'i gysylltiadau â'r ardal.

Rob Brydon visits his portrait in the Afan Valley, reinforcing his links to the area.

Enhancing the Travelling Experience

Sustrans is a leading UK sustainable transport charity. Its vision is a world in which people choose to travel in ways that benefit their health and the environment. It works on practical, innovative solutions to the transport challenges facing us all, including high profile projects, such as the award winning National Cycle Network (NCN), Connect2, DIY Streets and Liveable Neighbourhoods.

Since establishing the Wales office in 2000, Sustrans Cymru has been working in partnership with communities and local authorities to increase levels of walking and cycling, by putting in place a high quality network of routes. There are now over 1,400 miles of NCN in Wales, carrying 48 million trips per year.

2008 saw the completion of the Celtic Trail, using EU Objective One funding to upgrade the NCN between Fishguard and Chepstow. Building on the knowledge gained from the Celtic Trail, Sustrans developed a vision for a Valleys Cycle Network (VCN). The aim was to transform the former south Wales coalfield and create 80 miles of quality walking and cycling paths within two miles of over a million people. The project was EU funded in partnership with the Welsh Government, Regional Transport Consortia and the Valleys Regional Park. A network of former railways, tram roads and towpaths that once transported the raw materials of the industrial revolution has been transformed into beautiful walking and cycling trails, supporting tourism in the Valleys.

This work has provided a wealth of opportunity for interpretation. Sustrans often uses artwork as an interpretive tool. 'Portrait Benches', a key UK public art project unique to Sustrans, features three

life sized figures in weathered steel depicting local heroes chosen by people from the community. They offer a fantastic opportunity to delve into the heart and soul of the area in which they are based, interpreting the heritage and tapping into the community spirit of the Valleys.

Artwork created in the Llynfi Valley, on a former colliery site, has transformed it into an engaging public art space, focused on natural habitats, vegetation and wildlife. In tandem, poems by local school children describing the community's interaction with its historical and natural heritage act as a complementary interpretive medium.

A community-led project in Clydach, engaged a local artist to use current and past industrial materials to re-design an old bridge. Coal and coloured glass decorate the bridge deck, while the parapet is reminiscent of the maze of coloured pipes at the nearby Nickel works.

A recent development on the Taff Trail uses the interactive opportunities of geocaching to bring the route to life for users. 'The Taff Tales', an audio treasure hunt, aims to inspire audiences to explore the magical world of the NCN. Through a series of imaginative narratives, accessed via a mobile phone, participants discover two fictional characters through a series of treasure hunt tasks. This allows participants to engage with the surrounding natural environment, wildlife, heritage and artwork, enhancing their knowledge of the trails and the communities through which they travel.

An Economic Impact Study of the Celtic and Taff Trails in 2008 showed that these routes generate £75 million into the local economy from over 2.5 million users annually, supporting an estimated 1400 jobs. A similar study of the new Valleys Cycle

Ryland Jones looks at how Sustrans is using the rich cultural and industrial heritage of Wales to increase usage of the new Valleys Cycle Network – 350 miles of routes developed in the South Wales Valleys through a European Union (EU) funded partnership programme.



Mae Pont y Pydlwyr, rhan o gynllun Connect 2 Merthyr Tudful, yn cyfeirio at y locomotif stêm a'r rheilffordd a adeiladwyd gan Richard Trevithick i wasanaethu'r diwydiant haearn yn lleol. Mae enw'r bont yn adlewyrchu un o'r swyddi allweddol a gâi eu gwneud gan y gweithwyr haearn lleol.

Puddlers Bridge, part of the Merthyr Tydfil Connect 2 scheme, references the steam locomotive and railway built by Richard Trevithick to serve the local iron industry. The name of the bridge reflects one of the key jobs undertaken by local iron workers.

Network is planned and early indications show good usage levels where routes have been built or improved. But infrastructure alone is not enough. People also need attractions and a focus for their journeys and good interpretation is a key element in enhancing the journey experience.

Ryland C. Jones is Deputy Director of Sustrans Cymru. t. 029 2065 0602 e. ryland.jones@sustrans.org.uk



Rhwydwaith Beicio'r Cymoedd
The Valleys Cycle Network



Mainc Bortread Merthyr Tudful, un o 10 sydd wedi'u gosod ar draws Cymru fel rhan o brosiect Connect 2 sydd wedi cael nawdd gan y Loteri. Mae casgliad o dri ffigur lleol adnabyddus, yr un maint â phobl iawn, wedi cael eu torri o lenddwr a'u gosod ger mainc syml, gan wahodd pobl i ryngweithio â'r gofod a dod yn rhan o'r grŵp portread.

The Merthyr Tydfil Portrait Bench, one of 10 installed across Wales as part of the Lottery Funded Connect 2 project. A collection of three distinctive, life-sized local figures, cut from sheet steel and installed near a simple bench, invite people to interact with the space and become a part of the portrait group.

Roedd cynnwys plant ysgol ym mhrosiect Celf Tirwedd Llynfi yn elfen allweddol er ymgysylltu â'r gymuned; rhoddodd hynny ystyr i'r prosiect i bobl leol, ac yn ei dro gall gyfoethogi profiadau ymwelwyr.

Involving schoolchildren in the Llynfi Landscape Art project was a key element in engaging the community, making the project meaningful for local people, who in turn can enhance the visitor experience.



LLYSGENHADON Y CYMOEDD

yn helpu i ddatblygu 'cyrchfan lawn cyffro i dwristiaid'!

Ni chychwynnodd cynllun Llysgenhadol Twristiaeth Gymunedol y Cymoedd fel prosiect dehongli, ond wrth iddo fynd yn ei flaen mae yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cyflwyno dehongli cymunedol. Cafodd y cynllun Cymeradwyaeth Uchel yng nghategori 'Cyrchfan Gorau ar gyfer Twristiaeth Gyfrifol' yn Seremoni Gwobrwyo Twristiaeth Gyfrifol y Byd' yn y Farchnad Twristiaeth y Byd 2013 gyda'r datganiad hwn: Mae yna raglenni llysgennad twristiaeth eraill yn y DU ond roedd y beirniaid yn awyddus i gydnabod Rhaglen Llysgennad Twristiaeth Cymunedol y Cymoedd, am ddatblygu...cyrchfannau twristiaeth llawn cyffro... ni ellir ond cael eich gwefreiddio gan y croeso twymgalon a'r teimladau a fynegwyd gan y Llysgenhadon wrth arwain ymwelwyr drwy hanes a chwedlau'r lleoliadau a'r prydferthwch naturiol.' Mae **Jean Round** yn rhannu ei phrofiad o fod yn Llysgennad yng Nghanolfan Dreftadaeth Clydach.



Jean Round yn dal darn o hanes. Yn 2012 cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Dreftadaeth Clydach i ddathlu'r Gemau Olympaidd. Fe gawsom fenthg y dorth gan un o'r trigolion lleol oedd wedi rhedeg yn un o'r rhannau yn y ras gyfnewid Olympaidd. Cawsom dros 700 o ymwelwyr yn ystod y tri phenwythnos.

Jean Round holding a piece of history. In 2012 we held an event at the Clydach Heritage Centre to celebrate the Olympics. A local resident who had run one of the legs of the Olympic Relay loaned us his torch. We had over 700 visitors during those three weekends.

At the Responsible Tourism Awards
Yn y Gwobrau Twristiaeth Gyfrifol



Llysgenhadon o Gymoedd eraill
Ambassadors from other Valleys

Mae gan Gymru tipyn i'w gynnig ac mae dod yn Llysgennad Twristiaeth Gymunedol wedi cryfhau fy nghred yn hynny. Symudais i Gymru o Orllewin Canolbarth Lloegr yn 2009, i ymuno gyda fy nheulu. Cefais fy nghyflwyno i Ganolfan Dreftadaeth Clydach drwy gysylltiadau fy mab yng nghyfraith gyda Chymdeithas Camlas Abertawe, a dod yn wirfoddolwr. Gwnaeth fy hyfforddiant ar gyfer rôl y Llysgenhadwr ateb fy mwriad o ddysgu mwy am yr ardal symudais iddi, yn ogystal â chwrdd â phobl eraill. Mae'r hyfforddiant dilynol wedi bod yn hynod addysgiadol, gyda chyfleoedd i ymweld â lleoliadau tu allan i'n hardal a phrofi beth maent yn ei gynnig i ymwelwyr a thrigolion. Mae'r ymweliadau yn rhoi'r cyfle i ni gyfarfod a Llysgenhadon eraill ac i rannu syniadau.

Nid yw dod yn Llysgennad yn 'unigryw'. Cefais y cyfle i weithredu fel person 'Cwrdd a Chyfarfod' yn y Gynhadledd Twristiaeth Gymunedol Genedlaethol cafodd ei drefnu gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Fe glywais rai siaradwyr anhygoel i gyd yn llawn brwdfrydedd ar gyfer ein rôl. Rhoddodd y cynrychiolwyr oedd yn ymweld â Chanolfan Dreftadaeth Clydach marciau llawn iddo felly rwy'n credu y gallwn ddweud bod ein holl Llysgenhadon yn wirioneddol wedi cymryd i'w swyddi.

Y cynhwysyn hanfodol mewn bod yn Llysgennad yw brwdfrydedd, awydd i fynd allan a mwynhau beth sydd gan yr ardal

brydferth hon i'w gynnig ac i ddysgu beth mae eraill yn ei wneud. Mae hyn yn helpu wrth gyfarfod ac ymwelwyr fel ein bod yn medru rhoi profiad ehangach na dim ond beth mae ein Canolfan yn ei gynnig. Bydd pobl yn aml yn holi am y bathodyn yr ydym yn gwisgo gyda balchder ac yn cael eu hudo wrth glywed am y cynllun

Wrth edrych i'r dyfodol, yr un peth rydym i gyd wedi ei drafod, yw rhyw fath o bwynt cyswllt generig, fel 'Llysgenhadaeth', lle mae ymwelwyr yn cael ffordd o adael i ni adnabod eu hanghenion. Yn dilyn llwyddiant y rhaglen Llysgenhadaeth mae yna gynlluniau i ddatblygu'r prosiect ar sail Cymru gyfan, gan gynnwys Llysgenhadon presennol a hyfforddi rhai newydd mewn rhanbarthau eraill (mae hyn eisoes yn digwydd yn Sir Fynwy). Y nod yw creu rhwydwaith Cymru gyfan gan uno Llysgenhadon o gymunedau ar draws y wlad, i rannu arfer gorau, meithrin partneriaethau newydd ac o bosibl ystyried ffyrdd newydd o ddatblygu prosiectau dehongli yn eu hardaloedd.

Fe gafodd cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Cymunedol y Cymoedd ei greu drwy Raglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda chymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae Jean Round yn Llysgennad yng Nghanolfan Dreftadaeth Clydach.
e: secretary@clydachheritagecentre.com

VALLEYS AMBASSADORS

help to develop 'a passion filled tourist destination'!



Llysgenhadon yng Nghanolfan
Dreftadaeth Clydach.
Ambassadors at the
Clydach Heritage Centre.

The Valleys Community Tourism Ambassador scheme did not start out as an interpretation project, but as it gathers momentum it is raising new opportunities for delivering community interpretation. The scheme was Highly Commended in the 'Best Destination for Responsible Tourism' category at the World Responsible Tourism Awards Ceremony at World Travel Market 2013 with this comment: 'The judges wanted to recognise the Valleys Community Tourism Ambassador Programme, for developing...passion filled tourist destinations... one can't help but be moved by the warmth of the welcome and the feelings expressed by the Ambassadors when guiding visitors.' **Jean Round** shares her experience of being an Ambassador at the Clydach Heritage Centre.



Wales has an amazing amount on offer and becoming a Community Tourism Ambassador has only strengthened my belief in that. I moved to Wales from the West Midlands in 2009, to join my family. I was introduced to the Clydach Heritage Centre through my son-in-law's involvement with the Swansea Canal Society, and became a volunteer. The training I attended for the Ambassador role answered my aim of learning more about the area I had moved to, as well as meeting other people. The follow up training has been really informative, with opportunities to visit venues outside our area and experience what they offer visitors and residents. These visits give us the chance to meet other Ambassadors and to share ideas.

Becoming an Ambassador, is not just a 'one off'. I was given the opportunity to act as a 'Meeter and Greeter' at the National Community Tourism Conference organised by Valleys Regional Park. Here I heard some amazing speakers all full of enthusiasm for our role. The delegates who visited Clydach Heritage Centre gave it top marks so I think we can say that all our Ambassadors have really taken to their job.

The essential ingredient in becoming an Ambassador is enthusiasm, a thirst to get out there to enjoy all this beautiful area has to offer and to learn what others are doing. This helps when

meeting visitors so we can provide them with a broader experience than just what our Centre offers. People will often enquire about the badge we wear with pride and are fascinated to hear about the scheme.

Looking to the future, the one aim which we have all discussed, is some form of generic contact point, like an 'Embassy', where visitors have a way of letting us know their needs. Following the success of the Ambassador programme there are plans to develop the project on a pan-Wales basis, incorporating existing Ambassadors and training new ones in other regions (this is already happening in Monmouthshire). The aim is to create an all Wales network uniting Ambassadors from communities across the country, to share best practice, build new partnerships and possibly consider new ways of developing interpretation projects in their localities.

The Valleys' Community Tourism Ambassador scheme was created through the Valleys Regional Park Programme with support from the European Regional Development Fund through the Welsh Government.

Jean Round is an Ambassador
at the Clydach Heritage Centre.
e: secretary@clydachheritagecentre.com

Dehongli Llwybr Arfordir Cymru

- pob un o'r 870 o filltiroedd!

Llwybr Arfordir Cymru sy'n 870 o filltiroedd o hyd yw'r Llwybr hiraf a hyrwyddir yn swyddogol yn y DU. Sut rydych yn dehongli Llwybr sy'n 870 o filltiroedd o hyd? Mae

Quentin Grimley yn edrych ar y cyfleoedd a'r problemau.

Dehongli ar y Safle

Hyd yn hyn, gan fod amser staff a chyllid wedi canolbwyntio ar alinio'r Llwybr ei hun a'i seilwaith, a chydaf gwaith o farchnata'r Llwybr newydd, mae'r gwaith dehongli ar y safle wedi cael ei ohirio. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith dehongli ar y Llwybr ac mae'r rhan fwyaf o'r paneli ar hyd y Llwybr yn dyddio o gyfnod cyn y prosiect, ac wedi cael eu gosod gan gyrff amrywiol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Fodd bynnag, gan gydnabod pwysigrwydd gwaith dehongli o ansawdd uchel, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, a baratowyd gan James Carter, i awdurdodau lleol ac eraill sy'n llunio dehongliadau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn ganllaw i bobl sy'n gweithio gydag ymwelwyr a lleoedd ar hyd y Llwybr neu'n agos ato. Mae'n pwysleisio y dylai dehongliad Llwybr Arfordir Cymru anelu at:

- Dywys pobl o amgylch
- Cyfoethogi profiad ymwelwyr
- Annog parch
- Dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr
- Gwneud pethau'n gyson

Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y bobl iawn, nodi ac ymgysylltu â'r gynulleidfa a diffinio'r neges-euon perthnasol. Mae'r canllawiau yn delio nid yn unig â phaneli traddodiadol ar y safle ond hefyd â chyhoeddiadau, y rhyngwryd a thechnoleg newydd arall, canolfannau ymwelwyr a phrosiectau celfyddydol.

Gallwch lawrlwytho *Interpreting the Wales Coast Path* yn: http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk/media_centre/interpreting_the_path.aspx?lang=cy-gb

Dehongli oddi ar y Safle

Mae gan Llwybr Arfordir Cymru wefan swyddogol benodedig, a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ganddi sawl diben, gan gynnwys dehongli, gwybodaeth a marchnata. Ceir App Arfordir Cymru hefyd a gynhyrchwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus

www.llwybrarfordircymru.gov.uk
http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk/plan_your_trip/wales_coast_app.aspx?lang=cy-gb

Mae cyfres o dywyslyfrau 'swyddogol' yn cael eu cynhyrchu'n fasnachol gan Northern Eye Books, a gymeradwywyd ac a gefnogwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd pum llyfr yn ategu'r tywyslyfrau swyddogol sydd eisoes ar gael i rannau o'r Llwybr sy'n cwmpasu Ynys Môn (a gyhoeddir gan Mara Books), Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion) a Sir Benfro (Aurum Press). <http://www.llwybrarfordircymru.gov.uk/plan-your-trip/guidebooks.aspx?lang=cy-gb>

Y dyfodol

Gyda 2.8 miliwn o ymwelwyr ar gyfartaledd yn y flwyddyn o fis Hydref 2012 gyda gwarant gros o dros £30 miliwn, mae'r Llwybr yn bodloni'r disgwyliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £2.3 miliwn rhwng 2013-15 i wella ymhellach y gwaith o alinio a marchnata Llwybr Arfordir Cymru a'i seilwaith ac i ddatblygu cysylltiadau ohono. Mae p'un a fydd y gwaith dehongli wedi'i gydgyssylltu'n genedlaethol ai peidio neu ai penderfyniadau lleol a wneir, neu gyfuniad o'r ddau, yn fater y bydd yn rhaid i ni ei ystyried yn y misoedd i ddod.

Mae Quentin Grimley yn Swyddog Prosiect Mynediad Arfordirol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.
e-bost: Quentin.Grimley@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



Cerdded yn Llangrannog (Croeso Cymru)

Walking in Llangrannog (Visit Wales)



Edrych dros y traeth yng Ngwesty Tŷ Newydd (Croeso Cymru)

Overlooking the beach at Ty Newydd Hotel (Visit Wales)



Bonion coed fforest suddedig ar draeth Borth (Croeso Cymru)

Tree stumps of a submerged forest on the beach at Borth (Visit Wales)

Edrych tuag at Ynys Enlli (Croeso Cymru)

Looking to Bardsey Island (Visit Wales)

Rhwng 2007 a 2013, buddsoddwyd £15.6 miliwn ym mhrosiect Llwybr Arfordir Cymru gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Cyfoeth Naturiol Cymru bellach ac awdurdodau lleol arfordirol.

Between 2007 and 2013, £15.6 million was invested in the WCP project by the Welsh Government, European Regional Development Fund, Visit Wales, the Countryside Council for Wales - now Natural Resources Wales (NRW) and the coastal local authorities.

Interpreting the Wales Coast Path

- all 870 miles!

The 870 mile long Wales Coast Path (WCP) is the longest officially promoted route in the UK. So how do you interpret 870 miles of path? **Quentin Grimley** looks at the opportunities and the issues.



You can download *Interpreting the Wales Coast Path* at: http://www.walescoastpath.gov.uk/media_centre/interpreting_the_path.aspx

Off-Site Interpretation

The Wales Coast Path has a dedicated official website, hosted by Natural Resources Wales. This serves several purposes, including interpretation, information and marketing. There is also a Wales Coast App produced by Keep Wales Tidy.

www.walescoastpath.gov.uk
http://www.walescoastpath.gov.uk/plan_your_trip/wales_coast_app.aspx

A series of 'official' guidebooks are being produced commercially by Northern Eye Books, endorsed and assisted by NRW. Five books will complement the existing official guidebooks to the Anglesey (published by Mara Books), Ceredigion (Ceredigion County Council) and Pembrokeshire (Aurum Press) sections of the Path. <http://www.walescoastpath.gov.uk/plan-your-trip/guidebooks.aspx>

The Future

With an estimated 2.8 million visitors in the year from October 2012 with a gross expenditure of over £30 million, the path is living up to its potential. The Welsh Government have allocated £2.3 million between 2013-15 to further improve the alignment, infrastructure and marketing of the Wales Coast Path and to develop links from it. Whether or not the path will ultimately have interpretation nationally co-ordinated, or be left purely to local determination, or be a combination of the two, is a matter which we will need to consider in the coming months.

Quentin Grimley is Coastal Access Project Officer with Natural Resources Wales.
e: Quentin.Grimley@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

On Site Interpretation

So far, due to the focus of staff time and funding on the alignment and infrastructure of the path itself, and with marketing the new route, on-site interpretation has taken a back seat. Natural Resources Wales (NRW) have funded some new interpretation on the Path, although most of the panels pre-date the project having been installed by various bodies, including local authorities and the National Trust.

However, recognising the importance of high quality interpretation Natural Resources Wales have issued guidance, produced by James Carter, for local authorities and others planning Wales Coast Path interpretation. This document is intended as a guide for people working with visitors and places along or near the route. It emphasises that WCP interpretation should aim to:

- Guide people around
- Enrich visitors' experience
- Encourage respect
- Influence visitors' behaviour
- Make things consistent

The guidance also emphasises the importance of involving the right people, identifying and engaging the audience and defining the relevant messages. The guidance deals not only with traditional on-site panels but also publications, the internet and other new technology, visitor centres and arts projects.

hanes treftadaeth Hendy-gwyn ar Daf

I brofi nad oes raid i chi gael arian o Ewrop i wneud i bethau ddigwydd, ni dderbyniodd y prosiect ardderchog hwn geiniog o Ewrop, ond fe'i cefnogwyd gan y Cyngor Tref lleol. Mae hybu gwell gwerthfawrogiad o bwysigrwydd treftadaeth leol, ac annog dealltwriaeth o'r hyn sy'n rhoi cymeriad ac arbenigrwydd, wedi bod yn graidd gweithgareddau diweddar mewn ysgol yn Hendy-gwyn ar Daf. Drwy weithredu ar eiriau'r cyn Weinidog Treftadaeth Huw Lewis AC, 'y dylem geisio defnyddio treftadaeth lle fel symbyliad i ddatblygiadau newydd', dyma'r union beth a wnaeth Ysgol Gynradd Hendy-gwyn ar Daf, fel y mae **Ken Rees** yn egluro.

Tref farchnad sy'n llwythog gan hanes yw Hendy-gwyn ar Daf, ac mae'n gartref i Erddi a Chanolfan Wybodaeth Hywel Dda, sy'n dathlu cyflawniadau Hywel Dda, "Brenin Cymru gyfan" yn ystod hanner cyntaf y ddegfed ganrif. Yn ôl y traddodiad, casglodd ynghyd gynrychiolwyr o bob cwmwd yn ei deyrnas i gynulliad yn y "Tŷ Gwyn ar Daf yn Nyfed" er mwyn rhoi undod i'r cyfreithiau. Arhosodd y cyfreithiau mewn grym yng Nghymru hyd nes y Ddeddf Uno â Lloegr yn 1536.

Mae'r Ganolfan yn falch o'r berthynas weithio agos sydd ganddi â'r Ysgol Gynradd gyfagos. Mae'r plant yn actio agweddau o "Gyfraith Hywel" mewn dathliadau yn y Ganolfan ac yn mynd yno i gael gwersi, wedi penderfynu astudio Oes y Tywysogion fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Pan benodwyd Pennaeth newydd ar yr ysgol roedd hi'n awyddus i gryfhau'r cyswllt hwn ac i roi mwy o ddealltwriaeth i'r

disgyblion o hanes Hendy-gwyn a'i bwysigrwydd i Gymru. Mabwysiadodd y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg Lleol ei syniad o ailenwi'r ysgol yn Ysgol Llys Hywel gydag arwyddair newydd hefyd Tegwch, Braint a Threfn. Creodd y disgyblion reolau ysgol newydd yn seiliedig ar gyfreithiau Hywel Dda.

Yn ystod gweithgareddau ar ôl ysgol, bu'r athrawon a'r plant yn cynllunio ac yn creu murlun mawr sy'n dangos logo ac arwyddair newydd yr ysgol a rheolau'r ysgol. Caiff plant yr ysgol a'r plant sydd i ddod, y rhieni a phawb sy'n cyrraedd derbynfa'r ysgol, eu hatgoffa drwy hyn am eu treftadaeth leol.

Cytunodd Cyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf i dalu am wisg ysgol newydd i bob disgybl fel rhan o ail-frandio'r ysgol. Dychwelodd pob plentyn i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn eu gwisg newydd coch a gwyrdd. Mae'r lliwiau hyn yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd yn y darluniau unigryw ar

lawysgrif Peniarth 28 o'r drydedd ganrif ar ddeg sydd bellach yn cael ei harddangos yng Nghanolfan Hywel Dda.

Mae nifer o ysgolion Cymru wedi'u henwi ar ôl pobl/leoedd enwog, ond rwyf yn siŵr fod ein hysgol ni wedi mynd y filltir ychwanegol! Dyma hanes unigolyn sydd yn meddu ar weledigaeth i gyflwyno treftadaeth leol mewn ffordd unigryw – sy'n ysbrydoli ac yn annog plant a rhieni i werthfawrogi hanes pwysig eu hardal leol. Gobeithio bod y plant sy'n mynd heibio Canolfan Hywel Dda bob bore ar eu ffordd i Ysgol Llys Hywel yn sylweddoli fod y Ganolfan yn lle pwysig yn hanes y dref, a hanes Cymru, a'u bod hwythau'n rhan o'r stori hefyd.

Ken Rees yw Ysgrifennydd Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda
e: ebost@hywel-dda.co.uk



Canolfan Hywel Dda
The Hywel Dda Centre

the Whitland heritage story

To illustrate that you don't have to have European funding to make things happen, this great little project received not a penny from Europe, but was supported by the local Town Council. Fostering a better appreciation of the importance of local heritage, and encouraging an appreciation of what gives places character and distinctiveness, has been central to recent activities at a school in Whitland. Acting on the words of former Heritage Minister Huw Lewis AM 'that we should look to use the heritage of a place as the inspiration for new developments' Whitland Primary has done just this, as **Ken Rees** explains.



Y disgyblion yn dathlu ail-frandio'r ysgol gyda'r enw Ysgol Llys Hywel. Pupils celebrated the rebranding of the school with the name Ysgol Llys Hywel.

Whitland, a market town steeped in history, is home to the Hywel Dda Garden and Interpretive Centre, which celebrates the achievements of Hywel Dda, "King of all Wales" during the first half of the tenth century. According to tradition he summoned representatives from each commote in his kingdom to an assembly at "Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed" - "The White House on the Taf" (Whitland) for the purpose of codifying the laws. The laws remained in force in Wales until the Act of Union with England in 1536.

The Centre is proud of the close working relationship it has with the adjacent Whitland Primary school. Children enact aspects of the 'Laws of Hywel' at celebrations at the Centre and visit for lessons, having decided to study 'the Age of Princes' as part of the National Curriculum.

When a new Head of School was appointed she was eager to strengthen this link and give pupils a greater understanding



of Whitland's history and its importance to Wales. The Governing Body and the Local Education Authority adopted her idea of rebranding the school with the name "Ysgol Llys Hywel" (meaning 'Hywel's Court') and also a new logo "Tegwch, Braint a Threfn". The children created new school rules based on the laws of Hywel Dda.

During after school activities, teachers and pupils designed and made a large wall mural illustrating the new school logo and motto and the school rules. Present and future children, parents and all visitors to the reception area of the school, are now reminded of their local heritage.

Whitland Town Council agreed to fund new uniforms for every pupil as part of the school's rebranding. Every child returned to school at the beginning of term in their new emerald green and red uniforms.

These colours reflect those used in the unique illustrations from the 13th century manuscript Peniarth 28 now on display in the exhibition in the Hywel Dda Centre.

There are many schools in Wales named after famous people/places, but I'm certain that our school has gone that extra mile! This is a story of an individual with a vision of presenting local heritage in an unique way – which is inspiring and encouraging children and parents to appreciate the important history of their local area. Hopefully the children passing the Hywel Dda Centre every morning on their way to Ysgol Llys Hywel will appreciate that the Centre is an important place in the history of the town, and of Wales, and that they are part of the story.

Ken Rees is the Secretary of Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda
e: ebost@hywel-dda.co.uk

Y disgyblion yn rhoi eu syniadau ar bapur ac yn dangos eu gwisg ysgol a'u logo newydd. Talodd Cyngor Tref Hendy-gwyn am wisg ysgol newydd i bob plentyn yn yr ysgol.

Pupils putting ideas to paper and sporting their new school uniform and logo. Whitland Town Council funded new uniforms for every pupil in school.

Canolfan Hywel Dda
The Hywel Dda Centre



Y disgyblion yn actio agweddau o Gyfreithiau Hywel. Pupils enacting aspects of the Laws of Hywel

RHEOLAU'R YSGOL

"**Tegwch**" Roedd cyfreithiau Hywel yn seiliedig ar degwch a synnwyr cyffredin.

"**Braint**" Mae lle i bawb yn ein cymdeithas.

"**Trefn**" Mae'n rhaid i ni i gyd dderbyn rheolau a rheoliadau mewn Cymdeithas ac mae'n bwysig fod plant yn dysgu hyn.

SCHOOL RULES

"**Tegwch**" (fairplay) The Laws of Hywel were based on fairness and common sense.

"**Braint**" (privilege) There is a place for all within society.

"**Trefn**" (discipline, order) We all have to accept rules and regulations within Society and it is important that children learn this.

Amgueddfeydd yn y Nos

Eleni, am y tro cyntaf, mae tair amgueddfa / archifdy Cymru wedi cyrraedd rhestr fer digwyddiad blynyddol Amgueddfeydd yn y Nos - gŵyl oriau'r hwyr o gelfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Bydd yn cael ei chynnal dros benwythnos lau 15 Mai hyd at Sadwrn 17 Mai 2014 a bydd amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, archifdai a safleoedd treftadaeth yn agor eu drysau ar gyfer digwyddiadau arbennig gyda'r nos. Roedd y tri man yng Nghymru— Archifdy Sir Ddinbych gydag Amgueddfa Carchar Rhuthun, Amgueddfa Abertawe a Hanes Caerdydd yn cystadlu yn erbyn safleoedd ledled y DU i gyflwyno artistiaid megis Amy Sharrocks, Janette Paris a Mr Smith's Letterpress. Bydd Grayson Perry'n benthyg ei hun i'r sefydliad sy'n ennill 'iddyn nhw ei ddefnyddio fel y mynnont'.

Mae Amy Sharrocks yn awr ar ei ffordd i Abertawe wedi i Amgueddfa Abertawe ennill y bleidlais gyhoeddus i gynnal rhan o'r dathliadau Amgueddfeydd Gyda'r Nos ym Mai. Mae Amy'n artist byw, yn gerflunwraig ac yn wneuthurwraig ffilmiau, a fydd, efallai, yn ymchwilio i berthynas hanesyddol y dref â dŵr. Darfu i Amgueddfa Stori Caerdydd drechu cystadleuwyr cyndyn, hefyd, i fod yn fuddugol yn eu dosbarth. Byddant yn awr yn gweithio â'r artist cyfoes Janette Parris, a fydd yn defnyddio pypedau, taf-leiswyr, digrifwyr, actorion ac, yn bwysicaf oll, cymunedau Caerdydd er mwyn creu teithiau amgen doniol a swynol yn yr orielau yn Stori Caerdydd ar gyfer Amgueddfeydd Gyda'r Nos 2014.

I weld sut y gallwch gymryd rhan ewch i wefan www.museumsatnight.org.

Museums at Night

This year, for the first time, three Welsh museums/archives reached the shortlist of the annual Museums at Night event - an after-hours festival of arts, culture and heritage. Held over the weekend of Thursday 15 to Saturday 17 May 2014, museums, galleries, libraries, archives and heritage sites open their doors for special evening events. The three Welsh venues - Denbighshire Archives with Ruthin Gaol Museum, Swansea Museum and The Cardiff Story were competing against other UK wide sites to host artists such as Amy Sharrocks, Janette Paris and Mr Smith's Letterpress. Grayson Perry is lending himself to the winning organisation "for them to do with him as they see fit"! Amy Sharrocks is now on her way to Swansea after Swansea

Museum won the public vote to host part of the Museums at Night festivities in May. Amy is a live artist, sculptor and film-maker, who may explore the town's historic relationship with water. The Cardiff Story Museum also beat off stiff competition to win their category. They will now be working with contemporary artist Janette Parris who will be roping in puppets, ventriloquists, comedians, actors and most importantly Cardiff's communities to create funny and engaging alternative tours of the galleries at The Cardiff Story for Museums at Night 2014. Denbighshire Archives with Ruthin Gaol Museum won £100 towards staging their night time event.

See how you can get involved at www.museumsatnight.org.uk.

